

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol
Cymru (Taliadau)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Mawrth 2010



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiâu caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1990
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Swyddfadeddfwriaeth@cymru.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol
Cymru (Taliadau)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1
Mawrth 2010



Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

Sefydlwyd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ystyried a chyhoeddi adroddiadau ar ddeddfwriaeth a gyflwynir i'r Cynulliad yn bennaf gan Aelodau Cynulliad unigol, pwyllgorau a Chomisiwn y Cynulliad. Mae modd i'r Pwyllgor ystyried a chyhoeddi adroddiadau ar ddeddfwriaeth y Llywodraeth hefyd, pan fydd galw.

Pwerau

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Tachwedd 2008 fel un o bwyllgorau deddfwriaeth y Cynulliad. Mae ei bwerau wedi'u nodi yn Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yn benodol yn Rheolau Sefydlog 10, 22 a 23. Mae'r rhain i'w gweld yn www.cynulliadcymru.org

Aelodau'r Pwyllgor

| <i>Aelod Pwyllgor</i> | <i>Plaid</i> | <i>Etholaeth neu Ranbarth</i> |
|--------------------------------|-----------------------------------|-----------------------------------|
| Rosemary Butler (Cadeirydd) | Llafur | Gorllewin Casnewydd |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | Gogledd Cymru |
| Chris Franks | Plaid Cymru* | Canol De Cymru |
| Ann Jones | Llafur | Dyffryn Clwyd |
| Val Lloyd | Llafur | Dwyrain Abertawe |
| Nick Ramsay | Y Ceidwadwyr Cymreig | Mynwy |

* Ac yntau'n aelod o Gomisiwn y Cynulliad, ymneilltuodd Chris Franks AC o'r cyfarfodydd lle trafodwyd Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau). Bu Bethan Jenkins AC o Blaid Cymru yn dirprwyo'n barhaol wrth i'r Pwyllgor ystyried y Mesur arfaethedig yng Nghyfnod 1.

Cynnwys

| | |
|---|-----------|
| Argymhellion y Pwyllgor..... | 5 |
| 1. Cyflwyniad..... | 9 |
| 2. Y cefndir..... | 11 |
| 3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a pham fod angen deddfwriaeth | 13 |
| Pam fod angen Bwrdd annibynnol..... | 13 |
| Yr egwyddorion sy'n sail i'r Bwrdd..... | 18 |
| (i) Annibyniaeth ac atebolrwydd..... | 18 |
| (ii) Gweithredu'n agored a thryloyw | 22 |
| 4. Sylwadau penodol am wahanol adrannau | 27 |
| Adran 1 – Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru..... | 27 |
| Teitl y Bwrdd | 27 |
| Maint y Bwrdd..... | 28 |
| Adran 2 – Swyddogaethau'r Bwrdd..... | 29 |
| Adran 3 – Anghymhwysio rhag bod yn aelod o'r Bwrdd..... | 32 |
| Adran 4 – Penodi aelodau'r Bwrdd | 36 |
| Dethol ymgeiswyr i'w penodi'n Gadeirydd ac yn aelodau o'r Bwrdd a'r broses ffurfiol i'w dilyn wrth i Gomisiwn y Cynulliad eu penodi | 36 |
| Cyfnod y swydd ac ailbenodi | 42 |
| Adran 5 – Terfynu aelodaeth o'r Bwrdd | 43 |
| Adrannau 7 ac 8 – Cymorth gweinyddol a chyfarfodydd y Bwrdd.... | 44 |
| Adran 10 – Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau..... | 46 |
| Adran 12 – Arfer swyddogaethau: cyffredinol..... | 47 |
| Materion eraill | 50 |
| Y posibilrwydd y bydd gwaith y Comisiynydd Safonau a gwaith y Bwrdd yn gorgyffwrdd | 50 |
| Rhestr o'r tystion | 52 |
| Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig..... | 53 |

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r paragraffau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau sy'n cyd-fynd:

Yr egwyddorion cyffredinol

Cytunwn fod angen Bwrdd annibynnol statudol a chefnogwn egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

[Paragraff 57]

Rydym yn argymhell cynnwys datganiad yn y Mesur arfaethedig yn esbonio'n glir y bydd y Bwrdd yn cyflawni'i swyddogaethau'n annibynnol ar y Cynulliad. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwn. [Paragraff 59]

Nodwn nad oes darpariaeth yn y Mesur arfaethedig ac mai prin yw'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol o ran y trefniadau atebolrwydd. Felly, rydym yn argymhell bod y Llywydd yn rhoi sylw i hyn fel mater o flaenoriaeth. [Paragraff 60]

Rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno adroddiad blynyddol, a dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwn. [Paragraff 60]

Credwn y dylai'r Mesur arfaethedig esbonio'n glir y bwriedir i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw ac argymhellwn roi dyletswydd ar y Bwrdd yn hyn o beth.

[Paragraff 61]

Credwn ei bod yn bwysig esbonio'n glir o'r dechrau y bydd darpariaethau *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn berthnasol i'r Bwrdd, a hynny fel corff ynddo'i hun. Rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i'r perwyl hwn. [Paragraff 62]

Adran 1

Rydym yn argymhell bod y Llywydd yn rhoi rhagor o ystyriaeth i deitl Saesneg y Bwrdd gyda'r nod o osgoi defnyddio'r term 'remuneration'. [Paragraff 66]

Rydym yn fodlon â maint y Bwrdd fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 1(2). [Paragraff 72]

Adran 2

Gan ein bod yn cefnogi sefydlu'r Bwrdd, rydym hefyd yn fodlon â'r swyddogaethau a roddir iddo. [Paragraff 86]

Rydym yn fodlon bod yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2) yn briodol ac yn rhesymol. [Paragraff 87]

Rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â phartïon perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. Dylid ymgynghori'n ehangach na thrwy drafod ag Aelodau'r Cynulliad yn unig, a dylid cynnwys staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, yr undebau llafur perthnasol a phartïon eraill y mae'n debygol y bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn effeithio arnynt. [Paragraff 88]

Adran 3

Rydym yn fodlon â'r amod sy'n anghymhwyso cyn-aelodau o'r Paneli Adolygu Annibynnol rhag bod yn aelodau, fel y darperir ar gyfer hynny yn Atodlen 1, paragraff 1(l). [Paragraff 99]

Rydym yn argymhell y dylid anghymhwyso aelodau cyrff seneddol eraill rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwn. [Paragraff 100]

Rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth er mwyn gallu diwygio Atodlen 1 gan ddefnyddio dull tebyg i'r dull a geir yn adran 5 o Ddeddf Datgymhwysiad Tŷ'r Cyffredin 1975. [Paragraff 101]

Adran 4

Rydym yn argymhell y dylid cyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n aelodau o'r Bwrdd ar wefan y Cynulliad, ar ôl addasu'r weithdrefn honno a chytuno arni. [Paragraff 125]

Nid ydym yn credu ei bod yn briodol nac yn ddymunol i'r Mesur ragnodi categorïau o bobl a fydd yn gynrychiolwyr ar y Bwrdd, nac i'r Mesur bennu'r meini prawf sy'n gwneud yr ymgeiswyr hynny'n

gymwys.

[Paragraff 126]

Rydym yn fodlon bod y cyfrifoldeb dros benodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yng ngofal Comisiwn y Cynulliad, ac oherwydd hynny rydym yn fodlon gydag adran 4(1)(a) fel y mae wedi'i drafftio.

[Paragraff 127]

Rydym yn argymhell na ddylid caniatáu i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gael eu hailbenodi. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant i adran 4(2) i'r perwyl hwn. [Paragraff 134]

Rydym yn argymhell hefyd bod y Llywydd yn ystyried darparu ar gyfer penodi'r aelodau ar adegau gwahanol i'w gilydd gyda'r nod o sicrhau rhywfaint o barhad. [Paragraff 134]

Adran 5

Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod angen darparu ar gyfer terfynu aelodaeth o'r Bwrdd ac yn fodlon bod y dull a geir yn adran 5 yn addas ac yn rhesymol. [Paragraff 139]

Adrannau 7 ac 8

Hoffem gael rhagor o sicrwydd fod gan staff presennol Comisiwn y Cynulliad ddigon o gapasiti i ymateb i unrhyw ofynion ychwanegol o ran rhoi mwy o gymorth gweinyddol na'r hyn a ragwelwyd.

[Paragraff 151]

Adran 10

Rydym yn fodlon bod y Bwrdd wedi'i gyfyngu i beidio â gwneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â thalu cyflogau i Aelodau'r Cynulliad yn ystod pob tymor Cynulliad. [Paragraff 156]

Adran 12

Rydym yn fodlon ag adran 12. [Paragraff 166]

Materion eraill

Rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd a'r Comisiynydd Safonau ddatblygu protocol ffurfiol yn nodi sut y byddant yn rheoli unrhyw orgyffwrdd yn eu gwaith. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r Comisiynydd Safonau a

Chomisiwn y Cynulliad, a chytuno ar y protocol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. [Paragraff 170]

1. Cyflwyniad

Y cefndir

1. Ar 15 Hydref 2009, gosododd Dafydd Elis-Thomas AC, y Llywydd, yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, Fesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau)¹ ('y Mesur arfaethedig') gerbron y Cynulliad, ynghyd â Memorandwm Esboniadol.²
2. Yn ei gyfarfod ar 13 Hydref 2009, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Mesur arfaethedig at Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ('y Pwyllgor') er mwyn ystyried yr egwyddorion cyffredinol (yng Nghyfnod 1) yn unol â Rheol Sefydlog 23.21.³ Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'n rhaid i'r Pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad ar y Mesur arfaethedig erbyn 12 Mawrth 2010.

Natur y gwaith craffu

3. Yn ein cyfarfod ar 26 Tachwedd 2009, cytunwyd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar y Mesur arfaethedig:

Ystyried –

- (i) yr angen am Fwrdd Taliadau annibynnol er mwyn gwneud yr holl benderfyniadau ynghylch y cymorth ariannol a roddir i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- (ii) darpariaethau allweddol y Mesur arfaethedig ac a ydynt yn addas er mwyn cyflawni'r nod o gael proses agored a thryloyw o benderfynu ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad, a hynny mewn ffordd sy'n ennyn ffydd y cyhoedd;
- (iii) goblygiadau ymarferol ac ariannol y Mesur arfaethedig;
- (iv) a all y Mesur arfaethedig gyflawni ei amcan cyffredinol.⁴

¹ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau).

² Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1.

³ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Pwyllgor Busnes, BC(3)26-09, 13 Hydref 2009.

⁴ Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif1, LC1(3)-19-09, 26 Tachwedd 2009.

Dull y Pwyllgor o weithio

4. Cyhoeddwyd galwad gyffredinol am dystiolaeth gennym, a gwahoddwyd cyflwyniadau ysgrifenedig gan bartïon perthnasol er mwyn i hynny fod yn sail i'n gwaith. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
5. Clywsom dystiolaeth lafar hefyd gan nifer o dystion. Mae rhestr o'r dystion hyn i'w gweld ar ddiwedd yr adroddiad hwn.
6. Yn yr adroddiad a'r argymhellion isod, ceir y casgliadau a ddeilliodd o'r dystiolaeth a ddaeth i law wrth i ni gyflawni ein gwaith. Hoffem ddiolch i bawb a gyfrannodd at yr adroddiad.

2. Y cefndir

7. Mae'r pŵer sydd gan y Cynulliad i wneud y Mesur arfaethedig wedi'i gynnwys ym Mater 13.3 yn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mater 13.3

Darparu ar gyfer ac mewn cysylltiad â thalu cyflogau, lwfansau, pensiynau ac arian rhodd i neu o ran aelodau Cynulliad, y Prif Weinidog, unrhyw un o Weinidogion Cymru a benodwyd o dan adran 48, y Cwnsler Cyffredinol ac unrhyw un o Ddirprwy Weinidogion Cymru.

8. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn esbonio mai un o brif argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol ar y cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad⁵ ('y Panel Adolygu Annibynnol') oedd:

“...y dylai'r cysylltiad awtomatig rhwng tâl Aelodau'r Cynulliad a thâl Aelodau Seneddol gael ei dorri ac y dylai Corff Adolygu Annibynnol statudol gael ei sefydlu i bennu lefelau tâl at y dyfodol ac i fonitro ac adolygu'r cymorth ariannol arall gan gynnwys lwfansau teithio, pensiynau a chymorth swyddfa.”⁶

9. At hynny, argymhellodd y Panel Adolygu Annibynnol y dylai Comisiwn y Cynulliad “baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol o'r fath i wneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad”.⁷

10. Nod y Mesur arfaethedig yw rhoi'r argymhelliad uchod ar waith. Ei ddiben, fel y dywedir yn y Memorandwm Esboniadol, yw:

⁵ Ym mis Awst 2008, sefydlodd Comisiwn y Cynulliad y Panel Adolygu Annibynnol er mwyn edrych ar yr holl agweddau ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn <http://www.cynulliadcymru.org/memhome/mem-allow-pay-pensions/independentreviewpanel.htm>

⁶ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 1.3.

⁷ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 1.4.

“...sefydlu Bwrdd Taliadau annibynnol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru (“y Bwrdd”), trosglwyddo i’r Bwrdd swyddogaethau penderfynu ar daliadau Aelodau’r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, Gweinidogion Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru, a dibenion sy’n gysylltiedig â hynny. Mae’r swyddogaethau hyn yn cynnwys pennu ac adolygu cyflogau Aelodau’r Cynulliad, eu lwfansau a’u pensiynau. Byddai hyn yn mynd â’r cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hyn oddi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sef swyddogaethau sydd wedi’u rhoi ar hyn o bryd i Gomisiwn y Cynulliad.

Bydd y Bwrdd hefyd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â thaliadau i ddeiliaid swyddi ychwanegol ... er enghraifft, y Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Comisiynwyr y Cynulliad, arweinwyr y gwrthbleidiau a chadeiryddion pwyllgorau.”⁸

11. Mae’r Memorandwm Esboniadol hefyd yn datgan mai “amcan sefydlu corff o’r fath yw sefydlu “proses agored a thryloyw” ar gyfer penderfynu ar gyflogau Aelodau’r Cynulliad, proses a fydd yn meithrin “ffydd y cyhoedd”.”⁹

⁸ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 3.3- 3.4.

⁹ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 3.6.

3. Egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig a pham fod angen deddfwriaeth

Pam fod angen Bwrdd annibynnol

Tystiolaeth gan yr ymgynghoreion

12. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol yn y dystiolaeth lafar a'r dystiolaeth ysgrifenedig dros sefydlu Bwrdd annibynnol i wneud penderfyniadau ynghylch yr holl agweddau ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad.

13. Roedd y rhesymau a roddwyd o blaid sefydlu Bwrdd annibynnol yn cynnwys:

- nid yw gallu gwleidyddion etholedig i benderfynu ar lefel eu cymorth ariannol eu hunain yn rhoi llawer o hygrededd iddynt ymysg y cyhoedd;
- yr angen i roi sylw i ragdybiaethau negyddol ymhlith y cyhoedd o ganlyniad i'r digwyddiadau diweddar yn San Steffan mewn perthynas â threuliau Aelodau Seneddol;
- ar ôl cael gwared ar y cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol, roedd angen sefydlu dull gwahanol ac addas o benderfynu ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad a'r mathau eraill o gymorth ariannol a roddir iddynt.

14. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd Mr Richard Penn, Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol:

“The great advantage in establishing an independent board or panel for this purpose is that its takes the decision-making process on remuneration out of the political field. It has been one of the anachronisms of British democracy that politicians in the past have been able to set their own levels of pay.”¹⁰

15. Cyfeiriodd Mr Penn hefyd at y cyhoeddusrwydd negyddol a fu'n gysylltiedig â threuliau a lwfansau Aelodau Seneddol ac at y ffaith bod

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM3.

hynny wedi cryfhau'r ddadl dros gael system lle nad yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud gan wleidyddion etholedig.¹¹

16. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd yr Athro Laura McAllister o Brifysgol Lerpwl:

“Whilst there is no suggestion that AMs were as culpable as some MPs in the scandals over expense claims, one would expect the instilling of greater independence in the system used to remunerate and support them to have a positive impact on restoring public confidence in elected politicians generally. This is of particular significance in Wales’ young democracy (where longitudinal polling has shown greater public trust in Assembly politicians and ministers than for those at Westminster).”¹²

17. Yn yr un modd, dywedodd Dr Jonathan Bradbury o Brifysgol Abertawe:

“Where control over the setting of remuneration is still in the hands of Parliamentarians there remain distinct problems with respect to agreeing remuneration packages that inspire public confidence.”¹³

18. Pwysleisiodd Syr Roger Jones OBE, a gadeiriodd y Panel Adolygu Annibynnol, fod angen mynd i'r afael â'r ffaith bod y cyhoedd yn drwgdybio pobl sy'n pennu eu cyflogau eu hunain¹⁴ a theimlai'n gryf mai sefydlu Bwrdd annibynnol oedd yr unig ffordd o gyflawni hyn.

19. Roedd yr Athro McAllister a Syr Roger Jones ill dau'n cefnogi'r camau i gael gwared ar y cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol. Teimlai Syr Roger Jones nad oedd y cysylltiad hwn yn briodol.¹⁵ Awgrymodd yr Athro McAllister y byddai parhau â'r cysylltiad hwn yn arwain at fwy o broblemau na manteision. Credai fod gwaith y ddau Banel Adolygu Annibynnol ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad wedi rhoi cyfle i Gymru adnewyddu ei system o gyflogau a chymorth er

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM3.

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM9.

¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 6, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 10, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

mwyn efelychu'r arferion gorau rhyngwladol a grybwyllir yn yr adroddiad 'Yn Gywir i Gymru'.¹⁶

20. Yn groes i farn yr Athro McAllister a Syr Roger Jones, roedd Dr Bradbury yn pryderu am gael gwared ar y cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol. Dywedodd:

"Indeed in a highly integrated British public space, where media comment and public perceptions are not separated between British and Welsh level political discussion of these issues, it is a highly pertinent point that remuneration packages at different levels are likely to fall into disrepute if they are not seen to be, if not automatically linked, proportionate across the levels."¹⁷

21. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd Mr Barry Winetrobe, sy'n ymgynghorydd seneddol a chyfansoddiadol, fod ganddo amheuan ynghylch cyfansoddiad y Bwrdd annibynnol. I raddau helaeth, teimlai y dylai deddfwrfeydd reoleiddio eu hunain er mwyn cadw digon o ymreolaeth i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau democrataidd yn effeithiol ar ran y cyhoedd.¹⁸ Dywedodd Mr Winetrobe:

"...modern conditions require a new form and culture of self-regulation, where it can, where appropriate, be carried out 'at arm's length' for, and on behalf of, the parliament, or with the cooperation of, external bodies and persons. This exceptional form of organisational regulation must include robust and comprehensive accountability provisions to ensure that it is being operated transparently and, in all senses, responsibly, and is not being abused."¹⁹

22. Er hynny, roedd Mr Winetrobe yn cydnabod mai Comisiwn y Cynulliad sydd wedi cyflwyno'r Mesur arfaethedig, ac yn sgil hynny, roedd yn cydnabod bod y Mesur yn cydymffurfio mewn egwyddor ac i ryw raddau â'r hyn sy'n briodol ar gyfer sefydliad o'r fath.²⁰ Roedd yn cydnabod hefyd y byddai'r Bwrdd y darperir ar ei gyfer yn y Mesur arfaethedig yn debyg mewn rhai ffyrdd i'r corff hyd braich y galwai ef ei hun amdano, ac y gallai'r Bwrdd fod yn batrwm cadarn o gorff o'r

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM9.

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2.

¹⁹ *Ibid.*

²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 155, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

fath.²¹ Fodd bynnag, roedd Mr Winetrobe yn dal i bryderu bod pwyslais wedi cael ei roi ar hyrwyddo annibyniaeth y Bwrdd ar draul yr angen i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithiol, a phryderai hefyd nad oedd digon o sylw wedi'i roi i elfennau sydd yr un mor bwysig, megis atebolrwydd a gweithredu'n agored ac yn dryloyw.²² Ymdrinnir â'r materion hyn yn fanylach ym mharagraffau 32 i 47 a 48 i 55.

23. Yn olaf, wrth roi sylwadau am y posibilrwydd o sefydlu corff gwahanol i'r Bwrdd annibynnol, dywedodd Mr Winetrobe:

“...there is an argument for an all-embracing parliamentary financial support body setting allowances for the whole UK and its constituent Parliaments and Assemblies.”²³

24. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod nad oedd dyhead gwleidyddol ar hyn o bryd i ystyried hynny'n opsiwn.²⁴

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

25. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Mesur arfaethedig yn datgan mai un o “argymhellion allweddol” y Panel Adolygu Annibynnol yw:

“...y dylai'r cysylltiad awtomatig rhwng tâl Aelodau'r Cynulliad a thâl Aelodau Seneddol gael ei dorri ac y dylai Corff Adolygu Annibynnol statudol gael ei sefydlu i bennu lefelau tâl at y dyfodol ac i fonitro ac adolygu'r cymorth ariannol arall gan gynnwys lwfansau teithio, pensiynau a chymorth swyddfa.”²⁵

26. Dywedir yn ogystal:

“Mae adroddiad y Panel hefyd yn argymhell y dylai Comisiwn y Cynulliad baratoi a chyflwyno Mesur Cynulliad cyn gynted ag y bo'n ymarferol, i sefydlu Corff Adolygu Annibynnol statudol o'r fath i wneud penderfyniadau ynghylch pob agwedd ar gymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad.”²⁶

²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 197, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

²² Cofnod y Trafodion, paragraffau 152-155, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 191, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

²⁴ Cofnod y Trafodion, paragraffau 191 a 224, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

²⁵ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 1.3.

²⁶ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 1.4.

27. Cyn cyflwyno *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*²⁷ ('Deddf 2006'), esboniodd y Llywydd mai'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion oedd yn penderfynu ar lefel y taliadau a roddwyd i Aelodau'r Cynulliad. Rhoddodd Deddf 2006 swyddogaethau i Gomisiwn y Cynulliad wneud penderfyniadau ynghylch talu Aelodau'r Cynulliad. Gan fod y Cynulliad bellach yn gorff seneddol, dadleuodd y Llywydd yn gryf na fyddai'n briodol mwyach i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion barhau i fod yn rhan o'r broses o bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad. Mae hynny gan fod y Corff Adolygu yn gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig ac yn atebol i Lywodraeth y Deyrnas Unedig.²⁸ Aeth y Llywydd yn ei flaen i nodi:

“[nid oes gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion] ddealltwriaeth wirioneddol o natur gwaith Aelodau'r Cynulliad o'i gymharu â gwaith Aelodau Seneddol, lle mae ganddo brofiad yn amlwg.”²⁹

28. Ar ôl derbyn argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol i sefydlu corff statudol annibynnol (neu, yn achos y Mesur arfaethedig, y Bwrdd), esboniodd y Llywydd mai nod Comisiwn y Cynulliad oedd defnyddio'r pwerau a geir yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 i roi'r argymhelliad hwnnw ar waith.³⁰

29. Cyfeiriodd y Llywydd at ddatblygiadau mewn rhannau eraill o'r DU. Mae Llywodraeth y DU, er enghraifft, wedi sefydlu'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol tra bo'r Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus wedi cyhoeddi argymhellion ynghylch cyfrifoldebau statudol yr Awdurdod yn y dyfodol. At hynny, mae Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon ill dau yn ceisio bod yn fwy annibynnol wrth ymdrin â thaliadau i'r Aelodau.³¹

30. Wrth roi rhagor o sylwadau am yr angen i sefydlu Bwrdd annibynnol, dywedodd y Llywydd:

“Mae'r egwyddor yma'n syml. [Ym marn Comisiwn y Cynulliad], nid yw'n briodol i Aelodau etholedig bennu eu cyflogau eu hunain. Mae hyder y cyhoedd, yn enwedig mewn democratiaeth

²⁷ *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, p.32.

²⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 3-4, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

²⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

³⁰ Cofnod y Trafodion, paragraffau 3-4, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 4, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

newydd yng Nghymru, yn dibynnu ar bobl yn amgyffred bod pwerau penderfynu annibynnol a chdir yn y materion hyn. Nid yw'r cyhoedd yn derbyn y dylai Aelodau etholedig bennu eu cyflogau a'u cymorth ariannol eu hunain, ac yn y materion hyn mae'r cyhoedd yn gywir.”³²

Yr egwyddorion sy'n sail i'r Bwrdd

31. Dywedodd nifer o'r rheini a roddodd dystiolaeth y dylai prif egwyddorion y Bwrdd fod wedi'u seilio ar annibyniaeth ac atebolrwydd ac ar weithredu'n agored a thryloyw.

(i) Annibyniaeth ac atebolrwydd

Tystiolaeth gan yr ymgynghoreion

32. Pwysleisiwyd yn y dystiolaeth fod angen i'r Bwrdd weithredu'n annibynnol ac yn rhydd o ddylanwad y Cynulliad ac Aelodau'r Cynulliad. At hynny, awgrymwyd yn y dystiolaeth ei bod yr un mor bwysig creu trefniadau atebolrwydd cadarn.

33. Wrth gefnogi sefydlu Bwrdd annibynnol, dywedodd yr Athro McAllister:

“There is a wealth of international evidence to suggest that the fundamental principles that should underpin any system of remuneration and support for elected politicians are independence and accountability.”³³

34. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd Mr Penn y byddai angen sicrhau bod y Bwrdd yn annibynnol, ac roedd yn fodlon bod y Mesur yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn. Dywedodd:

“The proposed Measure does provide for that independence by having members appointed by the Assembly – or by the Commission in this case – who will, from that point on, reach their decisions independently of any influence from elected members. No Assembly Members, by definition, can be involved in the work of the new board, and that seems to me to be a good way of approaching it.”³⁴

³² Cofnod y Trafodion, paragraff 4, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

³⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 12, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

35. Er hynny, awgrymodd Mr Penn y gallai cynnwys datganiad eglur o annibyniaeth yn y Mesur arfaethedig, yn debyg i'r datganiad a geir ym Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009, feithrin mwy o ffydd ymysg y cyhoedd ynghylch annibyniaeth y Bwrdd.³⁵

36. Roedd yr angen i sicrhau cydbwysedd cywir rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd yn thema ganolog yn nhystiolaeth Mr Winetrobe.³⁶ Wrth gymharu'r Bwrdd â 'chyrff gwarchod cyfansoddiadol' fel Ombwdsmyr a Chomisiynydd Safonau, dywedodd Mr Winetrobe:

“...the most complex and sensitive issue is achieving the proper balance between ‘independence’ and ‘accountability’ in a body’s structure, governance and operation...”³⁷

37. Awgrymodd Mr Winetrobe bod annibyniaeth ac atebolrwydd yn gyddibynnol ar ei gilydd. Os yw corff am fod yn annibynnol, fel y Bwrdd yn yr achos hwn, mae'n hanfodol cael trefniadau atebolrwydd cadarn. Cyfeiriodd at y gwahaniaeth rhwng atebolrwydd 'weithredol' ac atebolrwydd 'lywodraethol' a dywedodd:

“You have to distinguish between say, for the sake of simplicity, operational accountability and governance accountability. In other words, with a board like this, there is a difference between Members, committees and the Assembly as a whole having an interest, on the one hand, in what the board determines as levels or types of support and pay, which is where independence should kick in at its strongest, and on the other hand, having an interest in its governance accountability...”³⁸

38. Roedd Mr Winetrobe yn pryderu nad oedd digon o sylw wedi'i roi i'r mater hwn; holodd sut y byddai'r trefniadau atebolrwydd yn gweithio'n ymarferol; a phwysleisiodd rai o'r canlyniadau anfwriadol a allai ddilyn pe na bai trefniadau atebolrwydd a threfniadau diogelwch priodol ac eglur yn bodoli o'r dechrau.

³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM5; a Chofnod y Trafodion, paragraff 14, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2.

³⁷ *Ibid.*

³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 163, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

39. Cafodd yr egwyddor y byddai'r Bwrdd yn annibynnol ar y Cynulliad sylw amlwg yn nhystiolaeth y Llywydd. Drwy gydol ei dystiolaeth, pwysleisiodd fod prif ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud ag anghymwyso pobl rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd, penodi aelodau'r Bwrdd a therfynu aelodaeth o'r Bwrdd, wedi'u drafftio er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn annibynnol.

40. Honnodd y Llywydd fod y Mesur arfaethedig yn "nodi'n glir na ddylai Aelodau'r Cynulliad allu cael unrhyw fewnbwn uniongyrchol ac ni allant fod yn aelodau o'r bwrdd."³⁹ Aeth yn ei flaen i ddweud:

“Mae'r bwrdd yn fwrdd annibynnol ar y Cynulliad, felly, yn ein barn ni, nid yw'n briodol i'r bwrdd nac i'r rhai sy'n penodi'r bwrdd fod yn Aelodau Cynulliad, neu'n gallu cael eu dylanwadu gan Aelodau Cynulliad. Mae hynny'n deillio o'r sail athronyddol a roesom gerbron o'r dechrau'n deg, sy'n dod allan o argymhelliad y panel 'Yn Gywir i Gymru', sef mai [Bwrdd] annibynnol ddylai hwn fod heb fod unrhyw gysylltiad rhyngddo ag Aelodau Cynulliad.”⁴⁰

41. Wrth roi sylwadau am y ddarpariaeth sy'n ymwneud â therfynu aelodaeth o'r Bwrdd, pwysleisiodd y Llywydd mai dyma'r "unig gysylltiad uniongyrchol" rhwng y Cynulliad a'r Bwrdd ac y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei defnyddio o dan "amgylchiadau eithriadol iawn" yn unig.⁴¹

42. Wrth ymateb i'r awgrym y dylai'r Mesur arfaethedig gynnwys datganiad eglur o annibyniaeth, dywedodd y Llywydd:

“Yr oeddem yn credu bod annibyniaeth y [bwrdd] taliadau annibynnol yn glir yn y ffordd yr oeddem wedi nodi ei gylch gorchwyl ac yn y ffordd yr oedd yn gweithredu ei swyddogaethau'n gyffredinol ac ati.”⁴²

43. Er hynny, cytunodd i ystyried y mater hwn ymhellach, ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei argymhellion.⁴³

³⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 125, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 130, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

⁴¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 128, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

⁴² Cofnod y Trafodion, paragraff 160, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 163, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

44. Pan holwyd ef yn wreiddiol am y trefniadau atebolrwydd, dywedodd y Llywydd:

“Bydd y bwrdd yn annibynnol ac felly ni fydd yn atebol i'r Cynulliad. Mae hon yn egwyddor sylfaenol.”⁴⁴

45. Yn ddiweddarach, fe'i gwnaeth yn glir y byddai trefniadau archwilio ac atebolrwydd yn cael eu sefydlu ar gyfer llywodraethu'r Bwrdd.⁴⁵ Wrth ymhelaethu ar y trefniadau hyn, eglurodd y Llywydd y byddai gan y Bwrdd linell wariant yng nghyllideb Comisiwn y Cynulliad, ac y byddai'r Pwyllgor Cyllid yn craffu ar honno fel rhan o'r broses o bennu'r gyllideb. Yn wir, awgrymwyd y gallai Cadeirydd y Bwrdd roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid yn hyn o beth, pe bai angen iddo wneud hynny.⁴⁶

46. Wrth roi sylwadau am y trefniadau archwilio, esboniodd Dianne Bevan, y Prif Swyddog Gweithredu, mai dim ond fel rhan o gyfrifon Comisiwn y Cynulliad, sy'n cael eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, y byddai cyfrifon y Bwrdd yn cael eu harchwilio'n allanol.⁴⁷ Aeth rhagddi i egluro y byddai gwariant y Bwrdd yn gwbl amlwg yng nghyfrifon Comisiwn y Cynulliad ac y byddai modd craffu arnynt yn sgil hynny.⁴⁸

47. Yn gysylltiedig â'r uchod, esboniodd y Llywydd y byddai gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus awdurdod i holi cwestiynau am y Bwrdd a'r dull o'i lywodraethu.⁴⁹ Disgwyliai hefyd y byddai'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad.⁵⁰ Cytunodd y Llywydd i ystyried ymhellach y posibilrwydd o gynnwys gofyniad i gyflwyno adroddiadau a darpariaeth benodol mewn perthynas â'r trefniadau craffu ac atebolrwydd, ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei argymhellion.⁵¹

⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

⁴⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 129, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁴⁶ Cofnod y Trafodion, paragraffau 129 - 141, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁴⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 141, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁴⁸ *Ibid.*

⁴⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 154, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁵⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 135, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁵¹ Cofnod y Trafodion, paragraffau 142 - 144 a pharagraff 158, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, Ionawr 28 2010.

(ii) Gweithredu'n agored a thryloyw

Tystiolaeth gan yr ymgyngoreion

48. Pwysleisiodd nifer o'r rheini a roddodd dystiolaeth fod angen sicrhau bod yr egwyddorion o weithredu'n agored a thryloyw yn sail i'r Bwrdd.

49. Yn ei thystiolaeth, dywedodd yr Athro McAllister:

“...it is acknowledged (and, in any case, is common sense assertion) that there is a direct correlation between the degree of openness and accessibility surrounding pay and expenses for politicians and wider public trust in holders of public office.”⁵²

50. Awgrymodd Mr Penn fod disgwyl i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw – er enghraifft, drwy greu a chynnal gwefan i'r cyhoedd a chyhoeddi agendâu, papurau a chofnodion cyfarfodydd.⁵³ Wrth bwysleisio'r pwynt hwn, galwodd Mr Winetrobe am gyflwyno gofyniad ar y Bwrdd yn hyn o beth.⁵⁴ Yn yr un modd, holodd a fyddai darpariaethau *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn berthnasol i'r Bwrdd.⁵⁵

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

51. Roedd yn amlwg o dystiolaeth y Llywydd ei fod yn disgwyl y byddai'r Bwrdd yn gweithredu mewn ffordd agored a thryloyw.⁵⁶ Eglurodd nad oedd o blaid rhoi dyletswydd ar y Bwrdd yn hyn o beth a dywedodd:

“Credaf y dylai cyrff fod â swyddogaethau, ac mai nhw ddylai fod yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau hynny. Mae rhoi dyletswyddau yn beth hawdd i'w wneud, ar un ystyr, ond mae gweithio allan beth y mae hynny'n ei olygu mewn gwirionedd yn gallu bod yn dasg feichus ar y llaw arall. Byddwn, felly, yn disgwyl i'r bobl sy'n penderfynu ymgeisio am swydd gyhoeddus—a dyna yw hyn—fod yn bobl sy'n deall sut y mae

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

⁵³ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2.

⁵⁵ *Ibid.*

⁵⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 21, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

sector cyhoeddus democrataidd ac agored yn gweithio, a bod disgwyl iddynt weithredu felly hefyd.”⁵⁷

52. At hynny, esboniodd, Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, fod adran 2(2)(c) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyflawni ei swyddogaethau gyda'r nod o 'sicrhau priodolder, atebolrwydd, gwerth am arian a thryloywder o ran gwariant cyllid cyhoeddus'. Dywedodd:

“Yn ôl fy nehongliad i, mae hynny'n berthnasol i ddefnydd Aelodau'r Cynulliad ac eraill o gronfeydd, ac i ddefnydd y bwrdd ei hun o adnoddau cyhoeddus.”⁵⁸

53. Wrth drafod a fyddai *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn berthnasol i'r Bwrdd, esboniodd Mr Bush:

“Ar hyn o bryd, nid yw'r bwrdd yn uniongyrchol ddarostyngedig i ofynion Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Gellid cyflawni hynny drwy ddiwygio'r Mesur arfaethedig, ond mae a fydd angen gwneud hynny'n dibynnu ar ba mor hygyrch y bydd cofnodion y bwrdd beth bynnag. Ni fydd gan y bwrdd strwythur gweinyddol annibynnol. Bydd yn dibynnu ar staff y Comisiwn. Bydd unrhyw gofnodion a fydd yn ymwneud â gweithgareddau'r bwrdd ym meddiant y Comisiwn, ac mae'r Cynulliad yn ddarostyngedig i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.”⁵⁹

54. Fodd bynnag, aeth Mr Bush yn ei flaen i gydnabod y gallai cwestiynau posibl godi o ran a fyddai Comisiwn y Cynulliad yn cadw cofnodion y Bwrdd ar ei ran, a chredai fod hynny'n rhywbeth i gnoi cil arno.⁶⁰

55. Yn sgil yr uchod, cytunodd y Llywydd i ystyried ymhellach a ddylid gwneud ceisiadau am wybodaeth o dan *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn uniongyrchol i'r Bwrdd.⁶¹

Ein barn ni

56. Wrth ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac wrth geisio penderfynu a oes angen y ddeddfwriaeth, roeddem yn

⁵⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 23, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁵⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 25-27, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁵⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 30, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁶⁰ *Ibid.*

⁶¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 32, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

ymwybodol bod Comisiwn y Cynulliad eisoes wedi penderfynu derbyn argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol i gael gwared ar y cysylltiad rhwng cyflogau Aelodau'r Cynulliad a chyflogau Aelodau Seneddol yn San Steffan. Gwyddem hefyd fod y penderfyniad wedi'i wneud i sefydlu corff adolygu annibynnol i wneud yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â'r cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad. Fodd bynnag, cytunwyd o'r cychwyn cyntaf na ddylai hyn ddylanwadu ar ein gwaith mewn unrhyw ffordd, ac ni chraffwyd ar y ddeddfwriaeth mewn unrhyw ffordd wahanol i arfer. Mae ein casgliadau wedi'u seilio'n llwyr ar y dystiolaeth a ddaeth i law.

57. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth eang a gafwyd yn y dystiolaeth dros sefydlu Bwrdd annibynnol statudol a nodwn sylwadau'r Llywydd mai dyna'r dull mwyaf addas o wneud penderfyniadau ynghylch y cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad. Nodwn hefyd farn y Llywydd nad yw'n briodol bellach i'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion fod yn rhan o'r broses o benderfynu ar gyflogau Aelodau'r Cynulliad a'r mathau eraill o gymorth ariannol a roddir iddynt. Yn hynny o beth, roedd rhai o'r Aelodau'n pryderu nad oedd digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i'r posibilrwydd o barhau i ddefnyddio'r Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion. Er hynny, ac yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law, **cytunwn fod angen Bwrdd annibynnol statudol a chefnogwn egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.**

58. Nodwn fod y rhesymau a roddwyd dros gefnogi sefydlu Bwrdd annibynnol yn cynnwys yr angen i wyrdroi'r rhagdybiaethau negyddol sydd wedi deillio o ddigwyddiadau diweddar yn San Steffan. Roeddem yn ymwybodol o hyn wrth lunio'n casgliadau, ond hoffem bwysleisio nad dyna'r unig beth a ystyriwyd. Rydym yn cydnabod bod y Panel Adolygu Annibynnol wedi cael ei sefydlu yn haf 2008, cyn i gyflogau a lwfansau Aelodau Seneddol yn San Steffan ddod yn bwnc llosg cyhoeddus. Credwn fod cynnydd sylweddol wedi'i wneud ers dechrau'r Cynulliad i ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'n bwysig bod y Cynulliad, fel sefydliad, ac Aelodau'r Cynulliad, fel cynrychiolwyr etholedig, yn parhau i gryfhau'r ymddiriedaeth hon. Teimlwn fod y Mesur arfaethedig a sefydlu Bwrdd annibynnol i benderfynu ar lefelau'r cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad yn rhoi cyfle i wneud hyn.

59. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law sy'n pwysleisio'n gryf fod angen sicrhau bod y Bwrdd yn annibynnol ar y Cynulliad. Credwn ei bod yn bwysig pwysleisio o'r dechrau y bydd gan Gomisiwn

y Cynulliad, ac i raddau llai y Cynulliad ei hun yn sgil adran 5, gyfraniad i'w wneud tuag at lywodraethu'r Bwrdd gan fod angen iddo benodi aelodau'r Bwrdd yn ffurfiol a rhoi cymorth ariannol a gweinyddol. Derbyniwn fod hyn rhesymol ac yn angenrheidiol ac rydym yn fodlon na fydd yn tanseilio'r egwyddor allweddol y bydd y Bwrdd yn gweithredu'n annibynnol ar y Cynulliad. Er hynny, credwn ei bod yn fuddiol esbonio'n glir bod y Bwrdd yn annibynnol a hynny er mwyn rhoi eglurder ac ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. I'r perwyl hwn, ac yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law, **rydym yn argymell cynnwys datganiad yn y Mesur arfaethedig yn esbonio'n glir y bydd y Bwrdd yn cyflawni'i swyddogaethau'n annibynnol ar y Cynulliad. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwn.**

60. Yn gysylltiedig â'r uchod, rydym yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd priodol rhwng annibyniaeth ac atebolrwydd. Nodwn o dystiolaeth y Llywydd mai ei fwriad yw cyflwyno trefniadau i sicrhau y gellid dwyn Comisiwn y Cynulliad i gyfrif am benderfyniadau a wneir mewn perthynas â llywodraethu'r Bwrdd, ac y gallai'r Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus graffu ar hyn. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu nad oes digon o ystyriaeth wedi'i rhoi i egwyddorion atebolrwydd a sut y byddai'r rhain yn cael eu rhoi ar waith yn ymarferol. **Nodwn nad oes darpariaeth yn y Mesur arfaethedig ac mai prin yw'r wybodaeth yn y Memorandwm Esboniadol o ran y trefniadau atebolrwydd. Felly, rydym yn argymell bod y Llywydd yn rhoi sylw i hyn fel mater o flaenoriaeth.** Yn gysylltiedig â hyn, ac er mwyn bod yn fwy agored eto, **rydym yn argymell bod y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyflwyno adroddiad blynyddol, a dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwn.** Fodd bynnag, ni ddylai hyn gyfyngu ar allu'r Cynulliad i ofyn am ragor o adroddiadau pan fydd galw.

61. Nodwn sylw'r Llywydd y bydd disgwyl i'r Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw, ac mae hyn yn ymhlyg yn yr amcan a geir yn adran 2(2)(c). Er hyn, nid ydym yn argyhoeddedig bod y Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn gwneud darpariaeth ddigonol yn hyn o beth. Yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law, rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n agored a bod y cyhoedd yn gallu gweld y gwaith y mae'n ei wneud. Credwn y bydd hyn yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth ehangach o waith y Bwrdd ac ennyn ymddiriedaeth y cyhoedd. Ar y sail hon, **credwn y dylai'r Mesur arfaethedig esbonio'n glir y bwriedir i'r**

Bwrdd weithredu mewn ffordd agored a thryloyw ac argymhellwn roi dyletswydd ar y Bwrdd yn hyn o beth.

62. Yn gysylltiedig â'r uchod, nodwn nad yw'r Mesur arfaethedig, fel y mae wedi'i ddrafftio, yn nodi bod darpariaethau *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* ('Deddf 2000') yn berthnasol iddo. Rydym yn cydnabod y bydd y Bwrdd yn dibynnu ar Gomisiwn y Cynulliad am gymorth gweinyddol ac y bydd y Comisiwn yn cadw cofnodion y Bwrdd. Yn sgil hynny, bydd gofynion *Deddf 2000* yn berthnasol. Fodd bynnag, **credwn ei bod yn bwysig esbonio'n glir o'r dechrau y bydd darpariaethau *Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000* yn berthnasol i'r Bwrdd, a hynny fel corff ynddo'i hun. Rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn cael ei ddiwygio i'r perwyl hwn.**

4. Sylwadau penodol am wahanol adrannau

Adran 1 – Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Teitl y Bwrdd

63. Mae adran 1(1) yn darparu ar gyfer sefydlu ‘Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru’.

64. Wrth roi tystiolaeth, awgrymodd Mr Winetrobe y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i deitl Saesneg y Bwrdd gan fod y term ‘remuneration’ yn cael ei gysylltu i raddau helaeth ym meddyliau’r cyhoedd â chyflogau neu dâl. At hynny, nid yw’n adlewyrchu’r holl gymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau’r Cynulliad ac mae iddo gysylltiadau negyddol.⁶²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

65. Esboniodd y Llywydd fod y term ‘remuneration’ yn adlewyrchu’r hyn a ddefnyddir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006* (‘Deddf 2006’).⁶³ Dywedodd ei fod yn fodlon bod y term yn cynnwys yr holl fathau o gymorth ariannol y byddai’r Bwrdd yn penderfynu yn eu cylch. Fodd bynnag, cytunodd y Llywydd i ystyried teitl y Bwrdd ymhellach ar ôl i’r Pwyllgor gyflwyno’i argymhellion.⁶⁴

Ein barn ni

66. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth y dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i deitl Saesneg y Bwrdd. Rydym yn cydnabod y rhesymau a roddwyd gan y Llywydd dros ddefnyddio’r term ‘remuneration’. Fodd bynnag, rydym yn dal i bryderu na fydd teitl y Bwrdd yn helpu’r cyhoedd i ddeall ei waith. I’r perwyl hwn, **rydym yn argymhell bod y Llywydd yn rhoi rhagor o ystyriaeth i deitl Saesneg y Bwrdd gyda’r nod o osgoi defnyddio’r term ‘remuneration’.**

⁶² Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2.

⁶³ Cofnod y Trafodion, paragraff 9, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁶⁴ *Ibid.*

Maint y Bwrdd

67. Mae adran 1(2) yn darparu ar gyfer cael pum aelod ar y Bwrdd, sef y Cadeirydd a phedwar aelod arall.

68. Yn ei dystiolaeth, pwysleisiodd Mr Penn fod angen sicrhau bod gan aelodau'r Bwrdd yr arbenigedd berthnasol.⁶⁵ Roedd yn pryderu y byddai'n anodd dod o hyd i bum aelod gyda'r arbenigedd berthnasol ac awgrymodd y gallai Bwrdd llai o faint, gyda thri neu bedwar aelod, fod yn ddigonol.⁶⁶

69. Yn gysylltiedig â'r uchod, dywedodd yr Athro McAllister:

“In view of the extensive evidence collected by the two independent panels (which each had four members) and those set up elsewhere in the UK, the settled schedule of annual or bi-annual meetings and the terms of reference suggested in the explanatory memorandum, I would regard four members, including a Chair, as being a manageable size for the Board.”⁶⁷

70. Roedd Syr Roger Jones yn fodlon gyda maint y Bwrdd y darperir ar ei gyfer yn y Mesur arfaethedig.⁶⁸

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

71. Wrth roi sylwadau am faint y Bwrdd, dywedodd y Llywydd mai Bwrdd ac iddo bum aelod oedd yr opsiwn gorau a dywedodd y gallai hynny weithio.⁶⁹ Pwysleisiodd nad oedd o blaid byrddau lle'r oedd nifer yr aelodau'n eilrif, er nad ymhelaethodd ynghylch hynny.⁷⁰ Awgrymodd y gallai Bwrdd llai o faint arwain at broblemau ymarferol pan fyddai un aelod neu ragor yn absennol.⁷¹

Ein barn ni

72. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth y byddai Bwrdd ac iddo lai na phum aelod (gan gynnwys y Cadeirydd), sef yr hyn y darperir ar ei

⁶⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM3; a Chofnod y Trafodion, paragraffau 49 – 51, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁶⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 56, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁶⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

⁶⁸ Cofnod y Trafodion, paragraffau 30 – 32, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

⁶⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁷⁰ *Ibid.*

⁷¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 15, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

gyfer yn adran 1(2), yn ddigonol. Er y gallai fod yn bosibl i Fwrdd llai gyflawni'r gwaith hwn, cytunwn â'r Llywydd ei bod yn fwy tebygol y byddai Bwrdd o'r fath yn wynebu problemau ymarferol. Oherwydd hyn, **rydym yn fodlon â maint y Bwrdd fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 1(2).**

Adran 2 – Swyddogaethau'r Bwrdd

73. Mae adran 2(1) yn darparu mai swyddogaethau'r Bwrdd yw'r rheini a roddir iddo gan adrannau 20, 22, 24, 53 a 54 o Ddeddf 2006, fel y'i diwygir gan y Mesur arfaethedig. Mae adrannau 20 i 22 a 53 i 54 o Ddeddf 2006 yn ymwneud â'r trefniadau presennol ar gyfer talu Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, yn y drefn honno. Mae adran 24 o Ddeddf 2006 yn ei gwneud yn ofynnol rhoi taliadau i'r grwpiau gwleidyddol neu roi taliadau cysylltiedig er mwyn cynorthwyo Aelodau'r grwpiau hynny i gyflawni eu swyddogaethau.

74. Mae adran 2(2) yn pennu'r amcanion y dylai'r Bwrdd geisio'u cyflawni wrth arfer ei swyddogaethau.

Tystiolaeth gan yr ymgynghoreion

75. Prin oedd y cyfeiriadau yn y dystiolaeth at brif swyddogaethau'r Bwrdd, fel y darperir ar gyfer hynny yn adran 2(1). Gan gofio mai diben y Bwrdd yw gwneud penderfyniadau ynghylch yr holl agweddau ar y cymorth ariannol a roddir i Aelodau'r Cynulliad, gellir tybio bod y rheini sy'n cefnogi sefydlu'r Bwrdd hefyd yn fodlon â'r swyddogaethau a roddir iddo.

76. Wrth roi sylwadau am yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2), pwysleisiodd staff cymorth Aelodau Cynulliad Democratiaid Rhyddfrydol Cymru fod angen sicrhau bod y Bwrdd yn deall holl gyfrifoldebau Aelodau'r Cynulliad fel cyflogwyr, ac na ddylai cyfrifoldebau staff a strwythurau cyflogau fod yn rhywbeth y rhoddir sylw iddo'n ddiweddarach yn unig.⁷²

77. Wrth gydnabod y byddai'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â rhoi cymorth ariannol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn cyflogi staff, ac y byddai modd iddo newid strwythur cyflogau a thelerau ac amodau gwaith y staff hynny, dywedodd staff cymorth Aelodau Cynulliad y Blaid Lafur:

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM6.

“... the measure [should] include a duty for the proposed Board to consult staff formally and negotiate with their Trade Union representatives before it makes any determination which would require AMs (and Party Leaders) to make staff redundant or change their terms and conditions.”⁷³

78. At hynny, pwysleisiodd staff cymorth Aelodau Cynulliad y Blaid Lafur fod angen sicrhau bod yr adnoddau sydd gan Aelodau'r Cynulliad i gyflogi staff yn eu galluogi i gyflawni eu gwaith craffu a'u gwaith cynrychioladol yn effeithiol, heb orfod dibynnu ar staff Swyddfa'r Grŵp a staff Comisiwn y Cynulliad. Aethant yn eu blaenau i awgrymu y byddai'n bwysig sicrhau bod Aelodau'r Cynulliad yn gallu parhau i recriwtio a chadw staff da er mwyn eu cynorthwyo â'u gwaith dros eu hetholwyr a thros Gymru'n ehangach.⁷⁴

79. Yn gysylltiedig â'r uchod, dywedodd yr Athro McAllister:

“...any package of support enables politicians to properly fulfil their legislative, representative and scrutiny duties and does not deter talented individuals (from other professions especially) from seeking election to public office.”⁷⁵

80. Mynegwyd hyn mewn termau cyffredinol yn hytrach na thrwy gyfeirio'n benodol at yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2).

81. Nid oedd yn glir o dystiolaeth Syr Roger Jones a oedd yn fodlon ai peidio bod yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2) yn adlewyrchu argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol yn ddigonol. Fodd bynnag, wrth roi sylwadau am adran 2(2), pwysleisiodd fod angen i'r Bwrdd, wrth wneud penderfyniadau, sicrhau bod lefel tâl Aelodau'r Cynulliad yn deg yng nghyd-destun y farchnad waith ehangach yng Nghymru. Dylai'r Bwrdd hefyd sicrhau bod y tâl yn rhoi gwerth am arian yn ogystal â sicrhau nad yw Aelodau'r Cynulliad o dan anfantais yn ariannol wrth gyflawni eu gwaith fel gwleidyddion etholedig.⁷⁶

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM8.

⁷⁴ *Ibid.*

⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

⁷⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 45, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

82. Pwysleisiodd Mr Penn bwysigrwydd cael amcanion clir, ac ymddangosai'n fodlon bod y Mesur arfaethedig yn darparu'n ddigonol ar gyfer hyn.⁷⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

83. Wrth roi tystiolaeth, esboniodd y Llywydd bod yr amcanion wedi deillio o adroddiad y panel annibynnol, ac yn benodol, o argymhellion 1, 2 a 12.⁷⁸

84. Roedd y Llywydd yn cydnabod y byddai'n fater anodd iawn mesur i ba raddau y bydd y Bwrdd wedi cyflawni'r amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2). Aeth yn ei flaen i ddweud:

“Mae argymhellion o ran llywodraethu corfforaethol ac archwilio ym mhennod 12 adroddiad y panel a fydd yn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu cynnal ac y bydd amcanion adran 2(2) yn benodol yn cael eu cyflawni. Mae darpariaeth hefyd yn y Mesur arfaethedig ar gyfer y bwrdd, naill ai o'i ddewis ei hun neu ar gais Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad, i adolygu ei benderfyniadau, a bydd hynny'n sicrhau bod yr amcanion yn cael eu mesur yn hunanfeirniadol gan y bwrdd ei hun, yn ogystal â chan ymateb y cyhoedd.”

85. Esboniodd y Llywydd y byddai disgwyl i'r Bwrdd ymgynghori ag Aelodau'r Cynulliad, staff cymorth Aelodau'r Cynulliad a'r undebau llafur perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. Nid oedd o blaid ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori, ond cytunodd y byddai'n ystyried hyn ymhellach, ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi ei argymhellion.

Ein barn ni

86. Rydym yn ymwybodol na wnaeth llawer o'r rheini a roddodd dystiolaeth sylwadau manwl am swyddogaethau'r Bwrdd, fel y mae'r rheini wedi'u nodi yn adran 2(1). Fodd bynnag, nodwn mai diben adran 2(1) yw rhoi swyddogaethau i'r Bwrdd ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch yr holl agweddau ar y cymorth ariannol sydd ar gael i Aelodau'r Cynulliad. **Gan ein bod yn cefnogi sefydlu'r Bwrdd, rydym hefyd yn fodlon â'r swyddogaethau a roddir iddo.**

⁷⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 68, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁷⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 33, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

87. Roedd yn glir o'r dystiolaeth mai'r ystyriaethau pwysicaf i'r Bwrdd wrth wneud penderfyniadau fyddai'r angen i sicrhau bod lefelau'r taliadau'n ddigonol i alluogi Aelodau'r Cynulliad i gyflawni eu gwaith yn effeithiol (ac mae recriwtio a chadw staff yn ganolog yn hynny o beth); sicrhau nad yw lefelau'r taliadau'n golygu bod ymgeiswyr posibl yn dewis peidio â sefyll mewn etholiadau; sicrhau bod lefelau'r taliadau'n deg ac yn rhoi gwerth am arian; a sicrhau bod modd i lefelau'r taliadau ddal eu tir pan wneir gwaith craffu cyhoeddus. Yn sgil hyn, **rydym yn fodlon bod yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2) yn briodol ac yn rhesymol**, ac rydym yn hyderus eu bod yn rhoi fframwaith addas er mwyn ateb yr anghenion hyn.

88. Nodwn dystiolaeth y Llywydd y bydd disgwyl i'r Bwrdd ymgynghori â phartïon perthnasol wrth gyflawni ei waith. Credwn y bydd ymgynghori effeithiol gan y Bwrdd yn allweddol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr amcanion y darperir ar eu cyfer yn adran 2(2). Teimlwn yn gryf ei bod yn hanfodol, yn hytrach nag yn ddymunol yn unig, bod y Bwrdd yn ymgynghori cyn gwneud penderfyniadau. Yn sgil hyn a'r dystiolaeth a ddaeth i law, **rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd ymgynghori â phartïon perthnasol cyn gwneud penderfyniadau. Dylid ymgynghori'n ehangach na thrwy drafod ag Aelodau'r Cynulliad yn unig, a dylid cynnwys staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, yr undebau llafur perthnasol a phartïon eraill y mae'n debygol y bydd penderfyniadau'r Bwrdd yn effeithio arnynt.**

Adran 3 – Anghymhwysio rhag bod yn aelod o'r Bwrdd

89. Mae adran 3 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n cynnwys rhestr o'r personau sy'n cael eu anghymhwysio rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Mae gan y rhan fwyaf o'r rheini sy'n cael eu anghymhwysio gysylltiad uniongyrchol â'r Cynulliad. Fodd bynnag, mae Atodlen 1, paragraff 1(l) yn darparu ar gyfer anghymhwysio cyn-aelodau y Paneli Adolygu Annibynnol.

90. Roedd y rheini a roddodd sylwadau ar y cyfan o blaid y rhestr o bersonau sy'n cael eu anghymhwysio rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Wrth roi dystiolaeth, dywedodd Mr Penn:

“The proposed disqualifications from membership of the Board appear to be properly focussed. It eliminates the possibility of anyone with a direct or potential identifiable interest in the

decisions of the Board being a member, while still allowing the possibility of elected members of bodies other than the National Assembly for Wales becoming Board members.”⁷⁹

91. Er hynny, holodd nifer o’r rheini a roddodd dystiolaeth, gan gynnwys Mr Penn, pam oedd cyn-aelodau’r Paneli Adolygu Annibynnol wedi cael eu anghymwysu yn Atodlen 1, paragraff 1(l). Wrth roi sylwadau am hyn, dywedodd yr Athro McAllister:

“I would have thought it more desirable for decisions about appointments to be made with regard to general suitability and overall mix of Board membership. This should include expertise, specific knowledge of this and related fields, and practical experience of what is likely to remain the thorny topic of politicians’ remuneration.”⁸⁰

92. Teimlai Syr Roger Jones fod anghymhwysu cyn-aelodau’r Paneli Adolygu Annibynnol yn anfoesgar ac yn amhriodol⁸¹ a gofynnodd Mr Penn a oedd gwir ddiben gwneud hynny.⁸²

93. Wrth roi tystiolaeth, gofynnodd Mr Winetrobe pam nad oedd aelodau neu gyn-aelodau seneddau a chynulliadau eraill yn y Deyrnas Unedig wedi cael eu hanghymwysu. Awgrymodd y dylid cael gwared ar y posibilrwydd y gallai pobl fod yn aelodau o fwy nag un corff sy’n ymdrin â thaliadau seneddol, gan y gallai hynny effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd.⁸³

Tystiolaeth gan yr Aelod sy’n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

94. Wrth esbonio’r rhesymeg y tu ôl i’r rhestr o bersonau sy’n cael eu anghymhwysu rhag bod yn aelodau o’r Bwrdd, dywedodd Mr Bush eu bod yn cynnwys y rheini y gallai penderfyniadau’r bwrdd effeithio arnynt neu ymddangos fel eu bod yn effeithio arnynt, ynghyd â phobl eraill a chanddynt swyddi cyhoeddus penodol a swyddogaethau penodol.⁸⁴

95. Esboniodd y Llywydd fod y Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer anghymhwysu cyn-aelodau’r Paneli Adolygu Annibynnol:

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM3.

⁸⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

⁸¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM7.

⁸² Cofnod y Trafodion, paragraff 136, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁸³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2.

⁸⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

“...[yr oeddem] am ei gwneud yn glir na ddylai neb a oedd wedi cymryd safiad cyhoeddus neu wedi mynegi barn, neu, yn yr achos hwn, wedi llunio adroddiad yn y maes hwn gyfrannu at waith y [bwrdd], gan y byddai hynny’n golygu nad oedd yn wirioneddol annibynnol.”⁸⁵

96. Fodd bynnag, roedd y Llywydd yn cydnabod y pryder a fynegwyd yn y dystiolaeth y gallai anghymhwysu pobl gyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr posibl, a chytunodd i roi rhagor o ystyriaeth i’r rheini sydd wedi’u hanghymhwysu, ar ôl i’r Pwyllgor gyhoeddi ei argymhellion.⁸⁶

97. Wrth roi sylwadau am yr awgrym y dylid anghymhwysu aelodau a chyn-aelodau cyrff seneddol eraill rhag bod yn aelodau o’r Bwrdd, dywedodd Mr Bush:

“...nid oeddem mewn gwirionedd yn credu bod hwn yn bwnc a oedd yn debygol o godi yn ymarferol ac felly gallech ddweud ei fod yn perthyn i’r categori o sefyllfaoedd lle y byddai’r sawl sy’n penodi aelodau’r bwrdd yn annhebygol iawn o feddwl y byddai Aelod o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Aelod Seneddol neu fel arall, gyda’u hymrwymadau, yn berson addas i wasanaethu ar y bwrdd. Credwn ei fod yn fater i’r broses ddethol yn hytrach na chael anghymhwysu diangen na fydd yn digwydd yn ymarferol.”⁸⁷

98. Wrth ymateb i gwestiwn ynghylch darpariaeth i ddiwygio Atodlen 1, esboniodd Mr Bush fod y Mesur arfaethedig yn ymwneud â swyddogaethau’r Cynulliad ac oherwydd hynny y byddai’n amhriodol dirprwyo pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio’r Atodlen drwy Offeryn Statudol. Gan hynny, byddai angen Mesur diwygio ar gyfer gwneud unrhyw ddiwygiadau o’r fath.⁸⁸ Fodd bynnag, mewn nodyn cynghori dilynol a ddarparwyd ar gais y Pwyllgor, dywedodd Mr Bush:

“There is one provision on the statute book which deals with a somewhat similar situation. Section 5 of the House of Commons Disqualification Act 1975 provides a mechanism for amending Schedule 1 to the Act (which sets out the offices whose holders are disqualified from membership of the House of Commons). A Statutory Instrument is required (in the form

⁸⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

⁸⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 69, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁸⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 76, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

⁸⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

of an Order in Council) but this can only be made in accordance with a resolution of the House of Commons. So the House resolves that Schedule 1 to the Act be amended and then a Statutory Instrument is made giving legislative effect to that. (Naturally, the amending SI does not require Parliamentary approval because it is giving effect to the will of the House of Commons.)

“If it were felt that a mechanism is needed so as to enable the Assembly to amend Schedule 1 to the Measure without the need for an amending Measure, I am confident that this could be achieved by a provision similar to that in Section 5 of the House of Commons Disqualification Act 1975.”⁸⁹

Ein barn ni

99. Nodwn fod y rheini a roddodd dystiolaeth ar y cyfan yn cefnogi'r rhestr o bersonau yn Atodlen 1 sy'n cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Rydym yn cydnabod y sylwadau a gafwyd yn y dystiolaeth mewn perthynas ag anghymhwyso cyn-aelodau'r Paneli Adolygu Annibynnol, fel y darperir ar gyfer hynny yn Atodlen 1, paragraff 1(l), ac yn cydnabod yn benodol y pryder y gallai hyn gyfyngu ar nifer yr ymgeiswyr posibl. Er ein bod yn cydnabod gwaith y Paneli Adolygu Annibynnol, derbyniwn y dadleuon a roddwyd gan y Llywydd dros anghymhwyso pobl rhag bod yn aelodau. Gan gofio bod nifer yr ymgeiswyr posibl sydd wedi'u hanghymhwyso yn sgil hyn yn gymharol isel, rydym yn fodlon na fydd yn cael effaith sylweddol ar y gallu i benodi pobl a chanddynt ddigon o arbenigedd yn aelodau o'r Bwrdd. Yn hyn o beth, **rydym yn fodlon â'r amod sy'n anghymhwyso cyn-aelodau o'r Paneli Adolygu Annibynnol rhag bod yn aelodau, fel y darperir ar gyfer hynny yn Atodlen 1, paragraff 1(l).**

100. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth y gallai caniatáu i aelodau etholedig cyrff seneddol eraill wasanaethu ar y Bwrdd arwain at amheuon ynglŷn â'i annibyniaeth, ac y gallai hynny yn ei dro danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd. Tra cytunwn â'r Llywydd ei bod yn annhebygol y bydd hyn yn digwydd yn ymarferol, er mwyn bod yn sicr o hynny, **rydym yn argymhell y dylid anghymhwyso aelodau cyrff**

⁸⁹ Nodyn gan Keith Bush, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, yn ategu dystiolaeth lafar a roddwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1 ar 28 Ionawr 2010.

seneddol eraill rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i'r perwyl hwnnw.

101. Fel y mae wedi'i ddrafftio, rydym yn cydnabod nad yw'r Mesur arfaethedig yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i ddiwygio Atodlen 1. O ganlyniad, byddai angen Mesur arall er mwyn addasu'r rhestr o bersonau sy'n cael eu hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd, a chredwn y byddai hynny'n dasg lafurus. Felly, **rydym yn argymhell bod y Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth er mwyn gallu diwygio Atodlen 1 gan ddefnyddio dull tebyg i'r dull a geir yn adran 5 o *Ddeddf Datgymhwysiad Tŷ'r Cyffredin 1975*.**

Adran 4 – Penodi aelodau'r Bwrdd

Dethol ymgeiswyr i'w penodi'n Gadeirydd ac yn aelodau o'r Bwrdd a'r broses ffurfiol i'w dilyn wrth i Gomisiwn y Cynulliad eu penodi

102. Mae Atodlen 2, fel y cyflwynir honno gan adran 4, yn ei gwneud yn ofynnol i Clerc y Cynulliad wneud trefniadau i ddethol ymgeiswyr i'w penodi'n aelodau o'r Bwrdd. Wrth wneud hynny, dylai'r Clerc roi ystyriaeth ddyladwy i'r egwyddor y dylid rhoi cyfle cyfartal i bawb.

103. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

“[Roedd y Panel Adolygu Annibynnol]o'r farn y byddai'n briodol mynd ati drwy gael Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad (yn rhinwedd ei swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu), yr Archwilydd Cyffredinol ac Ymgynghorydd Annibynnol i'r Comisiwn i'w dethol.”⁹⁰

104. Mae Atodlen 2, paragraff 3, yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad benodi Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd os bydd Clerc y Cynulliad wedi dethol y bobl hynny, oni bai ei bod yn ymddangos bod y bobl dan sylw wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd. Tra bo'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r bobl sydd wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelodau o'r Bwrdd (gweler paragraffau 89 i 101), nid yw'n rhoi unrhyw feini prawf sy'n nodi pwy sy'n gymwys.

⁹⁰ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraff 4.4.9.

Tystiolaeth gan yr ymgyngoreion

105. Yn gyffredinol, roedd y rheini a roddodd sylwadau yn fodlon â'r dull a ddarperir ar gyfer penodi aelodau o'r Bwrdd.

106. Wrth roi tystiolaeth, cadarnhaodd Syr Roger Jones ei fod yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn llai rhagnodol wrth ddiffinio'r panel dethol o'i gymharu ag argymhelliad y Panel Adolygu Annibynnol.⁹¹

107. Wrth roi sylwadau ynghylch sut y byddai'r trefniadau dethol y darperir ar eu cyfer yn Atodlen 2 yn gweithio'n ymarferol, esboniodd Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad ('y Clerc') fod ganddi gyfrifoldeb ar hyn o bryd dros wneud trefniadau neu oruchwyllo'r trefniadau ar gyfer nifer o weithdrefnau dethol - er enghraifft, ar gyfer penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Awgrymodd na fyddai'r trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n aelodau o'r Bwrdd yn gofyn am ddull newydd nad yw'n cael ei ddefnyddio eisoes fel arfer da.⁹²

108. Er mwyn bod yn fwy tryloyw, aeth y Clerc yn ei blaen i esbonio bod gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar weithdrefn safonol ar gyfer penodiadau a wneir gan y Cynulliad neu a wneir yn sgil enwebiad neu argymhelliad gan y Cynulliad. Drwy addasu'r weithdrefn hon, gellid ei defnyddio i benodi aelodau o'r Bwrdd.⁹³

109. Yn gysylltiedig â'r uchod, pwysleisiodd Mr Winetrobe fod angen cyhoeddi gweithdrefnau a fabwysiedir gan y Cynulliad mewn perthynas â dethol ymgeiswyr i'w penodi'n aelodau o'r Bwrdd, a hynny er mwyn bod yn fwy agored a thryloyw ac er mwyn sicrhau bod gan ymgeiswyr posibl, Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn ehangach ffydd yn y gweithdrefnau hynny.⁹⁴

110. Wrth roi tystiolaeth, mynegodd Dr Bradbury bryder ei bod yn ymddangos bod y Mesur arfaethedig yn rhoi llawer o ddisgresiwn i Gomisiwn y Cynulliad o ran pwy a benodir yn aelodau o'r Bwrdd ac o ran sut y penodir y bobl hynny.⁹⁵ Aeth yn ei flaen i awgrymu y gellid cryfhau'r darpariaethau mewn perthynas â dethol ymgeiswyr a phenodi

⁹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM1.

⁹³ *Ibid.*

⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2; a Chofnod y Trafodion, paragraffau 242 - 246, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM9.

aelodau'r Bwrdd er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwbl annibynnol. Teimlai Dr Bradbury y dylid ystyried pennu yn Atodlen 2 yr hyn sy'n gwneud ymgeiswyr posibl yn gymwys, gan ddefnyddio egwyddorion Nolan a phrofiad mewn mannau eraill, fel taleithiau Canada.⁹⁶

111. Yn gysylltiedig â'r uchod, awgrymodd Mr Penn y gallai fod yn fuddiol pe bai'r Mesur arfaethedig yn rhoi manylion y categorïau o bobl sydd i wasanaethu ar y Bwrdd, fel cyn-Aelodau'r Cynulliad, er enghraifft.⁹⁷

112. Yn yr un modd, dywedodd Syr Roger Jones ei fod yn gobeithio y byddai'r sector preifat, gan mai dyna'r sector sy'n creu cyfoeth, yn cael ei gynrychioli'n ddigonol ar y Bwrdd, a gwahaniaethodd rhwng y sector hwnnw a'r bobl y gellid eu galw'n ddinistrwyr cyfoeth.⁹⁸

113. Wrth roi sylwadau penodol am y broses ffurfiol y bydd Comisiwn y Cynulliad yn ei dilyn wrth benodi'r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd, dywedodd Mr Penn:

“This is inconsistent with the approach taken for the appointment of the statutory Commissioner for Standards, in that it is the Assembly itself that appoints the Commissioner – not the [Assembly] Commission.”⁹⁹

114. Aeth yn ei flaen i awgrymu y byddai'r broses yn ymddangos yn fwy agored a thryloyw (yn ogystal â chyson) pe gwneid y penodiadau gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn.¹⁰⁰

115. Yn yr un modd, dywedodd Mr Winetrobe:

“...I would prefer the commission to make a recommendation on which the Assembly voted formally.”¹⁰¹

116. Fodd bynnag, roedd yn cydnabod na fyddai hyn o bosibl yn cael ei ystyried yn ddichonadwy o gofio'r pwyslais a roddwyd ar yr angen i'r Bwrdd fod yn annibynnol ar y Cynulliad.¹⁰²

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM9.

⁹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

⁹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM7; a Chofnod y Trafodion, paragraff 90, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

⁹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM5.

¹⁰⁰ *Ibid.*

¹⁰¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 227, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹⁰² *Ibid.*

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

117. Wrth roi tystiolaeth, esboniodd y Llywydd nad oedd yn credu ei bod yn angenrheidiol i'r Mesur arfaethedig fod mor rhagnodol ag y bu'r Panel Annibynnol wrth ddiffinio'r panel dethol.¹⁰³

118. Wrth roi sylwadau am y rhesymeg y tu ôl i'r trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr, esboniodd y Llywydd, nad oedd deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus a phenodiadau'r goron, fel *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*, yn draddodiadol wedi cynnwys darpariaeth ynghylch y broses o d dynodi ymgeiswyr i'w penodi.¹⁰⁴ At hynny, dywedodd Mr Bush:

“Mae tuedd gynyddol i symud i ffwrdd o hynny i osod rhai meini prawf sylfaenol o leiaf, neu rai rheolau cyffredinol ynglŷn â sut y bydd y weithdrefn yn cael ei gweithredu. Dyna'r hyn y mae [Atodlen 2 a gyflwynir gan adran 4] yn ei wneud—mae'n nodi'n glir na fydd aelod o'r bwrdd sydd am gael ei benodi yn dod i'r fei drwy ryw broses wyrthiol, ond yn hytrach y bydd unigolyn, sef y clerc, yn gyfrifol am lunio proses sy'n seiliedig ar gyfle cyfartal, a fydd yn nodi person y mae'n rhaid i'r Comisiwn ei benodi yn sgîl hynny.”¹⁰⁵

119. At hynny, esboniodd y Llywydd eu bod wrthi'n ymgynghori ynghylch gweithdrefn safonol ar gyfer dethol ymgeiswyr a benodir gan y Cynulliad, neu ar gyfer penodiadau'r goron a wneir yn dilyn enwebiad neu argymhelliad y Cynulliad. Bydd y weithdrefn honno ar gael i'r cyhoedd ei gweld unwaith y cytunir arni.¹⁰⁶ Dywedodd ei fod yn hyderus y bydd y trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi, ynghyd â'r weithdrefn hon, yn arwain at fframwaith clir, sydd ar gael ac yn cael ei ddeall gan y cyhoedd o'r hyn sy'n sail i benodiadau”.¹⁰⁷

120. Credai'r Llywydd nad oedd angen meini prawf cymhwyso cyfreithiol ar gyfer penodi ymgeiswyr.¹⁰⁸ Rhoddodd sicrwydd y byddai

¹⁰³ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹⁰⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹⁰⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 116, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹⁰⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 111, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹⁰⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 123, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹⁰⁸

Clerc y Cynulliad yn llunio manylebau swyddi manwl ar y cyd â chynghorwyr annibynnol Comisiwn y Cynulliad.¹⁰⁹

121. Wrth roi sylwadau am y gwahaniaethau rhwng y weithdrefn ffurfiol ar gyfer penodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd ar y naill law, a phenodi'r Comisiynydd Safonau ar y llall, esboniodd y Llywydd fod y Comisiynydd, ynghyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn swyddogion cenedlaethol sy'n cyflawni dyletswydd genedlaethol.¹¹⁰ Esboniodd y Llywydd ei fod am gryfhau'r egwyddor bod y Bwrdd yn annibynnol ar y Cynulliad ac nad oedd unrhyw fodd i'r Cynulliad gael dylanwad uniongyrchol ar gyfansoddiad y Bwrdd a'r broses o'i ffurfio.¹¹¹ Wrth benodi Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, pwysleisiodd y byddai Comisiwn y Cynulliad yn gweithredu fel bwrdd i gadarnhau penderfyniad y panel dethol yn unig.¹¹²

122. At hynny, esboniodd Mr Bush na fyddai'r broses ffurfiol o benodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gan y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn yn cael unrhyw effaith ymarferol ar y bobl y byddid yn eu penodi, ac esboniodd rai o oblygiadau ymarferol penodi yn y fath fodd – er enghraifft, ni fyddai modd penodi aelodau'r Bwrdd yn ystod y toriad.¹¹³

123. Wrth ymateb i'r awgrym y byddai trefnu i'r Cynulliad benodi'r aelodau yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei gweld yn broses fwy agored a thryloyw na phe bai Comisiwn y Cynulliad yn eu penodi, dywedodd y Llywydd:

“...mae'r syniad bod y Comisiwn rywsut yn llai tryloyw na gweddill y Cynulliad yn gwbl annheg, oherwydd mae ei holl bapurau a'i drafodaethau'n cael eu cyhoeddi.”¹¹⁴

Ein barn ni

124. Nodwn fod y rhan fwyaf o'r rheini a roddodd dystiolaeth yn cefnogi'r dull a'r trefniadau ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n

¹⁰⁹ Cofnod y Trafodion, paragraff 102, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 84, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 87, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹² Cofnod y Trafodion, paragraff 96, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹³ Cofnod y Trafodion, paragraffau 87 – 88, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 96, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

aelodau o'r Bwrdd. Rydym yn cydnabod ac yn fodlon bod Atodlen 2 yn gwneud darpariaeth a fydd yn galluogi Clerc y Cynulliad i wneud y trefniadau hyn. At hynny, rydym yn fodlon bod Atodlen 2 yn pwysleisio na all unrhyw un y gallai swyddogaethau'r Bwrdd effeithio arnynt fod yn rhan o'r trefniadau hyn. Credwn y bydd hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd ffydd yn y broses ddethol ac er mwyn atgyfnerthu'r egwyddor o annibyniaeth.

125. Croesawn y ffaith fod Comisiwn y Cynulliad wedi cytuno ar weithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi gan y Cynulliad neu gan Ei Mawrhydi yn dilyn enwebiad neu argymhelliad gan y Cynulliad. Nodwn y gellid addasu a chymhwyso'r weithdrefn hon wrth ddethol aelodau'r Bwrdd a byddwn yn croesawu hyn. Yn sgil y dystiolaeth a ddaeth i law, ac er mwyn bod yn fwy tryloyw a gwella dealltwriaeth o'r broses ddethol, **rydym yn argymhell y dylid cyhoeddi'r weithdrefn ar gyfer dethol ymgeiswyr i'w penodi'n aelodau o'r Bwrdd ar wefan y Cynulliad, ar ôl addasu'r weithdrefn honno a chytuno arni.**

126. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth y dylai Atodlen 2 ragnodi'r meini prawf ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n gymwys, a hynny er mwyn cryfhau'r broses ddethol a phenodi. Teimlwn yn gryf y bydd dethol ymgeiswyr sydd â'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan y cyhoedd a phobl eraill ffydd yn y Bwrdd. Croesawn y sicrwydd a roddodd y Llywydd yn ei dystiolaeth y bydd disgrifiad swydd manwl yn cael ei lunio, a bydd hyn yn hwyluso'r broses ddethol. Credwn y bydd hyn, ynghyd â'r darpariaethau yn Atodlen 2 a'r weithdrefn ar gyfer dethol a phenodi aelodau'r Bwrdd, yn arwain at broses ddethol gadarn, a honno'n sicrhau bod yr ymgeiswyr mwyaf addas yn cael eu penodi. Oherwydd hyn, **nid ydym yn credu ei bod yn briodol nac yn ddymunol i'r Mesur ragnodi categorïau o bobl a fydd yn gynrychiolwyr ar y Bwrdd, nac i'r Mesur bennu'r meini prawf sy'n gwneud yr ymgeiswyr hynny'n gymwys.**

127. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth mai'r Cynulliad ddylai benodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yn ffurfiol yn y Cyfarfod Llawn. Tra ein bod yn cydnabod y rhesymeg y tu ôl i hyn, rydym yn rhannu'r pryder a fynegwyd gan y Llywydd y gellid tanseilio annibyniaeth y Bwrdd pe bai'r Cynulliad yn penodi'r aelodau. Yn sgil hyn, **rydym yn fodlon bod y cyfrifoldeb dros benodi'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd yng ngofal Comisiwn y Cynulliad, ac oherwydd hynny rydym yn fodlon gydag adran 4(1)(a) fel y mae wedi'i drafftio.**

Cyfnod y swydd ac ailbenodi

128. Mae adran 4(1)(b) yn darparu bod Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd 'i ddal eu swydd am gyfnod penodedig o bum mlynedd'.

129. Mae adran 4(2) yn darparu na 'chaniateir penodi neb yn aelod o'r Bwrdd os yw'r person hwnnw eisoes wedi'i benodi'n aelod o'r Bwrdd ddwy waith'.

Tystiolaeth gan yr ymgyngoreion

130. Wrth roi tystiolaeth, esboniodd Mr Winetrobe mai'r arfer ar hyn o bryd yw penodi pobl i swyddi cyhoeddus am un cyfnod hwy yn hytrach na'u hailbenodi. At hynny, mae ymchwil wedi dangos bod y bobl a benodir i'r swyddi hynny yn ffafrio'r dull hwn.¹¹⁵ Awgrymodd fod gwneud penodiadau am gyfnodau hwy heb y posibilrwydd o ailbenodi yn well ffordd o sicrhau annibyniaeth y rheini a benodir.¹¹⁶

131. Wrth roi sylwadau am drefniant lle byddai'r aelodau'n cael eu penodi ar adegau gwahanol, teimlai Mr Winetrobe y gallai hynny fod yn fuddiol, ond roedd yn cydnabod y gallai fod yn anodd yn ymarferol.¹¹⁷

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

132. Esboniodd y Llywydd fod cyfnod o bum mlynedd wedi'i ddewis gan y byddai'n galluogi'r Bwrdd i weithio dros ddau o dymhorau'r Cynulliad, a byddai hynny'n rhoi parhad defnyddiol.¹¹⁸ Er hynny, awgrymodd y byddai'n rhoi rhagor o ystyriaeth i hyd penodiadau'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd, ar ôl i'r Pwyllgor gyhoeddi'i argymhellion.¹¹⁹

133. Awgrymodd y Llywydd y byddai'n barod i ystyried gwneud darpariaeth ar gyfer penodi'r aelodau ar adegau gwahanol i'w gilydd.¹²⁰

Ein barn ni

134. Nodwn y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch penodiadau am un cyfnod hwy. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod tystiolaeth y Llywydd

¹¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM2; a Chofnod y Trafodion, paragraff 232, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹¹⁶ Cofnod y Trafodion, paragraff 232, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹¹⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 236, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹¹⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 104, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹¹⁹ *Ibid.*

¹²⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 115, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

mai diben pennu cyfnod o bum mlynedd yw galluogi'r Bwrdd i weithio dros ddau o dymhorau'r Cynulliad, ac rydym yn fodlon bod hyn yn rhesymol ac yn addas. Serch hynny, nodwn fod adran 4, fel y mae wedi'i drafftio ar hyn o bryd, yn darparu ar gyfer ailbenodi'r aelodau, a byddai hynny'n eu galluogi i wasanaethu'n ddi-dor am gyfnod o ddeng mlynedd. Credwn fod hyn yn ormod. **Rydym yn argymhell na ddylid caniatáu i'r Cadeirydd ac aelodau'r Bwrdd gael eu hailbenodi. Dylai'r Llywydd gyflwyno gwelliant i adran 4(2) i'r perwyl hwn.** Yn ymarferol, rydym yn ymwybodol y byddai hyn yn arwain at greu Bwrdd newydd bob pum mlynedd. Am y rheswm hwn, **rydym yn argymhell hefyd bod y Llywydd yn ystyried darparu ar gyfer penodi'r aelodau ar adegau gwahanol i'w gilydd gyda'r nod o sicrhau rhywfaint o barhad.**

Adran 5 – Terfynu aelodaeth o'r Bwrdd

135. Mae adran 5(d) yn darparu bod yn rhaid i gynnig a gynigir ar ran Comisiwn y Cynulliad gan aelod o'r Comisiwn gael ei wneud i derfynu aelodaeth o'r Bwrdd, a rhaid cael cymeradwyaeth y Cynulliad drwy bleidlais gyda mwyafrif o ddwy ran o dair o'r pleidleisiau.

Tystiolaeth gan yr ymgynghoreion

136. Dywedodd Mr Winetrobe a Mr Penn ill dau bod y Mesur arfaethedig yn golygu bod modd i Gomisiwn y Cynulliad benodi aelodau o'r Bwrdd, ond bod angen cymeradwyaeth y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn i derfynu aelodaeth.¹²¹

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

137. Wrth roi sylwadau am y ddarpariaeth i derfynu aelodaeth o'r Bwrdd, dywedodd y Llywydd:

“Mae'n rhaid cael rhyw ffordd i derfynu aelodaeth o unrhyw gorff cyhoeddus, rhag ofn bod amgylchiadau annisgwyl yn codi.”¹²²

138. Awgrymodd fod hyn yn arfer safonol mewn deddfwriaeth sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer penodiadau cyhoeddus, a hynny er mwyn

¹²¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 227, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010; tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM5, a Chofnod y Trafodion, paragraffau 84 – 85, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

¹²² Cofnod y Trafodion, paragraff 127, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

diogelu natur penodiadau cyhoeddus. Pwysleisiodd y Llywydd mai dim ond mewn amgylchiadau hynod eithriadol y byddid disgwyl terfynu aelodaeth o'r Bwrdd – er enghraifft, os byddai salwch difrifol yn golygu na allai aelod o'r Bwrdd gyflwyno'i ymddiswyddiad.¹²³

Ein barn ni

139. Rydym yn cydnabod ac yn derbyn bod angen darparu ar gyfer terfynu aelodaeth o'r Bwrdd ac yn fodlon bod y dull a geir yn adran 5 yn addas ac yn rhesymol.

Adrannau 7 ac 8 – Cymorth gweinyddol a chyfarfodydd y Bwrdd

140. Mae adran 7 yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Cynulliad 'ddarparu ar gyfer y Bwrdd unrhyw gymorth gweinyddol y mae'n rhesymol i'r Bwrdd ofyn amdano i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau'.

141. Mae adran 8 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd gyfarfod o leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, yn ogystal â phan fydd Clerc y Cynulliad yn gwneud cais ysgrifenedig iddo gyfarfod.

142. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn rhagdybio y bydd y Bwrdd yn cynnal wyth cyfarfod yn y flwyddyn gyntaf a dau gyfarfod mewn blynyddoedd dilynol pan nad oes etholiad. Bydd disgwyl i aelodau'r Bwrdd ymrwymo deuddydd ar gyfer pob cyfarfod, a bydd angen gwneud dau ddiwrnod o waith gweinyddol ar gyfer pob diwrnod y bydd y Bwrdd yn cyfarfod.¹²⁴

Tystiolaeth gan yr ymgynghorion

143. Wrth roi tystiolaeth, awgrymodd Mr Penn ei bod yn debygol y byddai angen i'r Bwrdd gyfarfod yn amlach nag a nodwyd yn y Memorandwm Esboniadol ac nad yw'r amcangyfrifon yn ddigon uchel o ran yr amser y byddai angen i aelodau'r Bwrdd ei ymrwymo a'r cymorth gweinyddol sy'n angenrheidiol.¹²⁵ Awgrymodd yr Athro

¹²³ Cofnod y Trafodion, paragraff 127, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 10 Rhagfyr 2009.

¹²⁴ Mesur Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau), Memorandwm Esboniadol, ACPM-13-EM-S1, paragraffau 9.8 – 9.12.

¹²⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 91, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

McAllister y byddai tri diwrnod o waith paratoi gan bob aelod o'r Bwrdd ar gyfer pob cyfarfod yn amcangyfrif cywirach.¹²⁶

144. Pwysleisiodd Syr Roger Jones fod angen sicrhau bod gan y Bwrdd yr hyblygrwydd angenrheidiol i gyfarfod yn ôl y galw ac awgrymodd ei fod yn fodlon bod y Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer hyn.¹²⁷

145. Wrth roi amcangyfrif o lefel a natur y cymorth y byddai ei angen ar y Bwrdd dros gylch pedair blynedd arferol, dywedodd y Clerc:

“Support will be required to make the necessary administrative arrangements, including recording issues discussed, decisions made and future actions agreed. In addition, it will be necessary to provide the Board with research and analytical advice.

[...]

“It is anticipated that, every four years in advance of an election, the Board will require 15 person days administrative support and 10 person days research/analytical support. In non-election years, the required support will be about half of these levels.”¹²⁸

146. Aeth y Clerc yn ei blaen i ddatgan ei bod yn fodlon bod gan y staff presennol ddigon o gapasiti ac arbenigedd i roi'r cymorth angenrheidiol i'r Bwrdd.¹²⁹

147. Awgrymodd yr Athro McAllister bod y lefel o gymorth a amcangyfrifwyd ar gyfer y Bwrdd yn y Memorandwm Esboniadol yn rhesymol. Fodd bynnag, aeth yn ei blaen i ddweud:

“...it is vital that the Board has adequate support, including professionally conducted research and comparative information gathering and that this is provided without interference from elected politicians or the Commission.”¹³⁰

¹²⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

¹²⁷ Cofnod y Trafodion, paragraffau 134 – 136, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹²⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM1.

¹²⁹ *Ibid.*

¹³⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

148. Esboniodd y Llywydd fod y ffigurau a roddwyd yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer nifer y cyfarfodydd, yr amser y byddai angen i'r aelodau ei ymrwymo a lefelau'r cymorth gweinyddol yn rhoi'r amcangyfrifon isaf.¹³¹

149. Aeth y Llywydd yn ei flaen i sicrhau'r Pwyllgor y byddai cyllideb y Bwrdd yn cael ei goruchwyllo i raddau rhesymol, er mai'r Bwrdd fyddai'n penderfynu pa mor aml y byddai'n cyfarfod. At hynny, byddai'r trefniadau archwilio a'r trefniadau atebolrwydd yn helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.¹³²

Ein barn ni

150. Yn amodol ar rai gofynion penodol, rydym yn cydnabod bod y Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth a fyddai'n galluogi'r Bwrdd i benderfynu pa mor aml y byddai'n cyfarfod. Derbyniwn fod angen yr hyblygrwydd hwn.

151. Nodwn yr awgrym yn y dystiolaeth a ddaeth i law ei bod yn bosibl nad yw'r amcangyfrifon a geir yn y Memorandwm Esboniadol yn ddigon uchel ar gyfer nifer cyfarfodydd y Bwrdd, yr amser y byddai angen i aelodau'r Bwrdd ei ymrwymo a'r gofynion o ran y cymorth gweinyddol. Os yw hynny'n wir, rydym yn ymwybodol y bydd cost barhaol y Bwrdd yn uwch nag a ragwelwyd yn wreiddiol ac y gallai fod angen rhagor o gymorth gweinyddol arno. Derbyniwn fod y Llywydd wedi dweud y bydd y trefniadau atebolrwydd yn rhoi dull rhesymol o oruchwyllo costau'r Bwrdd. Er hynny, **hoffem gael rhagor o sicrwydd fod gan staff presennol Comisiwn y Cynulliad ddigon o gapasiti i ymateb i unrhyw ofynion ychwanegol o ran rhoi mwy o gymorth gweinyddol na'r hyn a ragwelwyd.**

Adran 10 – Arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyflogau

152. Mae adran 10(3) yn darparu na chaiff y Bwrdd wneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â thalu cyflogau Aelodau'r Cynulliad, Prif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Dirprwy Weinidogion Cymru yn ystod pob tymor Cynulliad.

¹³¹ Cofnod y Trafodion, paragraff 165, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹³² Cofnod y Trafodion, paragraff 167, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

153. Yn ei thystiolaeth ynghylch baich gwaith y Bwrdd, dywedodd yr Athro McAllister:

“I fully agree that there should be an imperative to make any decisions relating to salaries and support lasting, sustainable and robust. Evidence from elsewhere suggests that well thought out systems are easily sustained without regular reappraisals of the fundamentals.”¹³³

154. Wrth roi sylwadau am oblygiadau posibl y Mesur arfaethedig mewn perthynas â'i gwaith fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, dywedodd y Clerc:

“The new arrangements will simplify the budget planning process, as Members’ salaries will be fixed for the 4-year Assembly term.”¹³⁴

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

155. Esboniodd y Llywydd fod y gofyniad ar y Bwrdd i beidio â gwneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â thalu cyflogau Aelodau'r Cynulliad yn deillio o un o argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol. Awgrymodd y byddai hynny'n rhoi rhagor o sicrwydd i ymgeiswyr posibl mewn etholiadau ynghylch y cyflogau y gallent ddisgwyl eu cael.

Ein barn ni

156. Yn sgil y dystiolaeth a gafwyd gan y Llywydd a thystion eraill, **rydym yn fodlon bod y Bwrdd wedi'i gyfyngu i beidio â gwneud mwy nag un penderfyniad mewn perthynas â thalu cyflogau i Aelodau'r Cynulliad yn ystod pob tymor Cynulliad.**

Adran 12 – Arfer swyddogaethau: cyffredinol

157. Mae adran 12(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Bwrdd 'roi sylw' i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol y tro cyntaf y mae'n bwriadu gwneud penderfyniad mewn perthynas ag unrhyw fater, i'r graddau y mae'r argymhellion hynny'n berthnasol i'r mater hwnnw.

158. Mae adran 12(4) yn darparu y dylai'r Bwrdd, pan fydd yn bwriadu gwneud penderfyniadau dilynol, 'roi sylw' i'r argymhellion hynny 'i'r

¹³³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM4.

¹³⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM1.

graddau y mae'n ymddangos i'r Bwrdd eu bod yn dal yn berthnasol i'r mater hwnnw'.

Tystiolaeth gan yr ymgyngoreion

159. Roedd y rheini a roddodd sylwadau am y mater hwn yn cefnogi'r gofyniad yn adran 12(1) i raddau gwahanol.

160. Wrth roi tystiolaeth, meddai Mr Winetrobe:

“...if the issue is the extent to which a purportedly independent board is being circumscribed by too much detail in the direction in which it is being pointed, that raises issues about its independence and the value of its work. If it is told to have regard to the report, its general principles and so on, in principle, that is fair enough, but if it is told to do nothing more than implement that report, in effect, turning it into a set of rules, I do not suppose that the board would find that a congenial or worthwhile job to do.”¹³⁵

161. Mynegodd Dr Bradbury amheuan ynghylch rhwymo'r Bwrdd Taliadau Annibynnol i beidio ag ystyried yr hyn nad oedd yr adroddiad 'Yn Gywir i Gymru' am ei weld yn cael ei ystyried. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“Generally, I would like to see written into the Measure in section 12 some wording that stiffens the independence of the Remuneration Board, and gets a better balance between its need to take account of a review endorsed by Assembly debate and its own autonomy to consider issues regarding remuneration and raise issues for Assembly and the public consideration.”¹³⁶

162. Pwysleisiodd Syr Roger Jones fod angen sicrhau bod y Bwrdd yn deall y bwriad y tu ôl i adroddiad y Panel Adolygu Annibynnol, sef adfer ffydd yr etholwyr yng Nghymru.¹³⁷ Fodd bynnag, ni roddodd sylwadau'n uniongyrchol am y gofyniad yn adran 12.

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

163. Wrth roi tystiolaeth, dywedodd y Llywydd:

¹³⁵ Cofnod y Trafodion, paragraff 209, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

¹³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM9.

¹³⁷ Cofnod y Trafodion, paragraff 123, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 21 Ionawr 2010.

“Mae adran 12 yn rhoi’r cyfle i’r bwrdd arfer ei swyddogaethau mewn ffordd annibynnol, gan wneud ei benderfyniadau ei hun, gan bwysleisio pwysigrwydd gwaith y panel.”¹³⁸

164. Dywedodd fod y gofyniad yn adran 12(1) yn fodd o roi agenda ac arweiniad clir i’r bwrdd taliadau annibynnol, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn annibynnol. Aeth yn ei flaen i ddweud:

“Byddai’n groes i argymhellion y panel annibynnol y dylid cael bwrdd annibynnol os mai’r cwbl y byddai’n ei wneud fyddai gweithredu gwaith y panel.”¹³⁹

165. At hynny, disgrifiodd Mr Bush y ddarpariaeth fel a ganlyn:

“...mae’n ffordd ymarferol o asio gwaith y panel gyda gwaith y bwrdd, gan ei gwneud yn glir bod gan y bwrdd ryddid i wyro oddi wrth argymhellion y panel gan gymryd bod ganddo reswm digonol i wneud hynny, y mae’n rhaid iddo ei ddatgan ac, wrth gwrs, yn amodol ar y ffaith bod hynny ond yn gymwys y tro cyntaf y mae’r bwrdd yn ystyried rhywbeth. Wrth symud ymlaen, bydd y bwrdd yn cael mwy o ryddid, fel pe bai, i wyro oddi wrth argymhellion y panel. Hefyd, bydd amgylchiadau newydd yn golygu ei bod yn anochel y bydd yn torri tir newydd ac yn gwneud ei benderfyniadau ei hun. Felly, i ryw raddau, mae hynny’n gyfaddawd rhwng y ddau ofyniad hynny.”¹⁴⁰

Ein barn ni

166. Nodwn y dystiolaeth a ddaeth i law sy’n cwestiynu i ba raddau y bydd y gofyniad ar y Bwrdd i roi sylw i argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol yn effeithio ar annibyniaeth y Bwrdd. Derbyniwn y rhesymau a roddodd y Llywydd dros gynnwys y gofyniad hwn ac rydym yn cydnabod y bydd argymhellion y Panel Adolygu Annibynnol yn rhoi sail i waith cychwynnol y Bwrdd. Yn olaf, rydym yn fodlon bod y ddarpariaeth, fel y mae wedi’i drafftio, yn sicrhau cydbwysedd addas rhwng yr angen i sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi sylw i waith y Panel Adolygu Annibynnol a’r angen i roi’r ymreolaeth angenrheidiol i’r Bwrdd i’w alluogi i drafod materion a dod i’w gasgliadau ei hun wrth arfer ei swyddogaethau. I’r perwyl hwn, **rydym yn fodlon ag adran 12.**

¹³⁸ Cofnod y Trafodion, paragraff 119, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

¹³⁹ *Ibid.*

¹⁴⁰ Cofnod y Trafodion, paragraff 126, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

Materion eraill

Y posibilrwydd y bydd gwaith y Comisiynydd Safonau a gwaith y Bwrdd yn gorgyffwrdd

Tystiolaeth gan yr ymgynghoreion

167. Wrth roi tystiolaeth, awgrymodd Mr Penn bod posibilrwydd y gallai gwaith y Bwrdd a gwaith y Comisiynydd Safonau orgyffwrdd, a holodd sut y byddai unrhyw orgyffwrdd o'r fath yn cael ei reoli. Wrth ymhelaethu ynghylch hyn, esboniodd Mr Penn y gallai fod angen i'r Comisiynydd Safonau ymchwilio i honiadau a wneir ynghylch camddefnyddio lwfansau, a gallai hynny godi materion ehangach mewn perthynas â'r penderfyniadau y bydd y Bwrdd yn eu gwneud. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor, yn y blynyddoedd diwethaf, fod sawl achlysur wedi bod pan fu'n rhaid iddo roi gwybod yn ffurfiol i Gomisiwn y Cynulliad am bryderon ynghylch lwfansau penodol. Yn yr un modd, awgrymodd Mr Penn y gallai'r Bwrdd, wrth gyflawni ei waith, ddod yn ymwybodol o achos o weithredu sy'n groes i'r penderfyniadau a wnaeth, a byddai hynny'n berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd.¹⁴¹ Galwodd am ddatblygu protocol ffurfiol yn pennu'n glir y trefniadau pe bai sefyllfa o'r fath yn codi.¹⁴²

Tystiolaeth gan yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig

168. Roedd y Llywydd yn cydnabod bod swyddogaethau'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd yn berthnasol i'w gilydd ond aeth yn ei flaen i esbonio:

“...nid yw swyddogaethau'r bwrdd a'r comisiynydd yn gorgyffwrdd. Mae'r bwrdd yn pennu'r rheolau ar gyfer cymorth ariannol i'r Aelodau, a gall y comisiynydd gyfrannu os cyhuddir unrhyw un o dorri'r rheolau hynny. Fel arall, mae'r rhain yn swyddogaethau cwbl ar wahân.”¹⁴³

169. At hynny, o dan delerau'r Mesur arfaethedig, eglurodd y gallai'r Clerc gyfeirio unrhyw fater at y Bwrdd os bydd y Comisiynydd

¹⁴¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, NAWRM5, a Chofnod y Trafodion, paragraff 35, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

¹⁴² Cofnod y Trafodion, paragraffau 37 - 41, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 14 Ionawr 2010.

¹⁴³ Cofnod y Trafodion, paragraff 78, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

Safonau'n tynnu sylw'r Clerc at y mater hwnnw a'i fod yn berthnasol i waith y Bwrdd.¹⁴⁴

Ein barn ni

170. Rydym yn cydnabod y dystiolaeth a ddaeth i law ynghylch y gorgyffwrdd posibl rhwng gwaith y Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd. Credwn ei bod yn bwysig sicrhau bod trefniadau'n cael eu sefydlu o'r dechrau i reoli hyn pe bai'r sefyllfa'n codi. Er nad ydym yn credu bod angen rhoi sylw i hyn drwy ddarpariaeth yn y Mesur arfaethedig, **rydym yn argymhell y dylai'r Bwrdd a'r Comisiynydd Safonau ddatblygu protocol ffurfiol yn nodi sut y byddant yn rheoli unrhyw orgyffwrdd yn eu gwaith. Dylid gwneud hyn ar y cyd â'r Comisiynydd Safonau a Chomisiwn y Cynulliad, a chytuno ar y protocol cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.**

¹⁴⁴ Cofnod y Trafodion, paragraff 79, Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1, 28 Ionawr 2010.

Rhestr o'r tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau llafar yn <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-perm-leg/bus-committees-third-lc1-agendas.htm>

10 Rhagfyr 2009

| | |
|---|--|
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC | Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig |
|---|--|

14 Ionawr 2010

| | |
|--------------|---|
| Richard Penn | Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
|--------------|---|

21 Ionawr 2010

| | |
|---------------------|---|
| Syr Roger Jones OBE | Cyn-gadeirydd Panel Adolygu Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
|---------------------|---|

| | |
|-------------------|---|
| Barry K Winetrobe | Ymgynghorydd Seneddol a Chyfansoddiadol |
|-------------------|---|

28 Ionawr 2010

| | |
|---|--|
| Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC | Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Cynulliad a'r Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur arfaethedig |
|---|--|

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-legislation/bus-leg-measures/bus-legislation-measures-proposed_remuneration/lc1_3_-remuneration-writtenresponses.htm

| <i>Enw</i> | <i>Sefydliad</i> | <i>Cyfeirnod</i> |
|---------------------------|--|---------------------|
| Claire Clancy | Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad Cenedlaethol | NAWRM 1 NAWRM 1A |
| Barry K Winetrobe | Ymgynghorydd Seneddol a Chyfansoddiadol | NAWRM 2 |
| Richard Penn | Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol | NAWRM 3 |
| Yr Athro Laura McAllister | Ysgol Reolaeth Prifysgol Lerpwl | NAWRM 4 |
| Richard Penn | Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | NAWRM 5 |
| | Staff cymorth Aelodau'r Cynulliad, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | NAWRM 6 |
| Syr Roger Jones OBE | Cyn-gadeirydd Panel Adolygu Annibynnol Cynulliad Cenedlaethol Cymru | NAWRM 7 |
| | Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad, Llafur | NAWRM 8 |
| Dr Jonathan Bradbury | Yr Adran Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol, Prifysgol Abertawe | NAWRM 9 |